

Sefydliad Materion Cymreig
Canolfan Gwleidyddiaeth a
Chymdeithas Cymru
Prifysgol Aberystwyth
Mawrth 2025

MAKING
WALES
BETTER



GWNEUD
CYMRU
WELL

Llun: Lee Jeffs, unsplash

Meithrin Arloesi Democrataidd yng Nghymru: Gwersi o Bob Cwr o'r Byd

Dr Anwen Elias, Dr Eleri Phillips a Dr Jennifer Wolowic



Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society



1872 PRIFYSGOL
ABERYSTWYTH
UNIVERSITY



Am yr awduron

Dr. Anwen Elias – Darlennydd mewn Gwleidyddiaeth a Cyd-Gyfarwyddwr Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru/WISERD, Prifysgol Aberystwyth

Dr. Eleri Phillips – Cynorthwydd Ymchwil, Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru/WISERD, Prifysgol Aberystwyth

Dr. Jennifer Wolowic – Prif Arweinydd Canolfan Ddeialog, Prifysgol Aberystwyth

Am yr SMC

Rydym yn felin drafod ac yn elusen, yn annibynnol o'r llywodraeth a phleidiau gwleidyddol.

Drwy ddod ag arbenigwyr o bob cefndir ynghyd, rydym yn llunio syniadau uchelgeisiol a gwybodus sy'n sicrhau ymrwymadau gwleidyddol i wella ein democratiaeth, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi.

Rydym yn darparu llwyfannau ar gyfer dadlau, cyfleoedd i bobl leisio'u barn ac ymchwil sy'n gosod yr agenda. Rydym yn cael ein hariannu gan ein haelodau, incwm o'n digwyddiadau a sesiynau hyfforddi, an yn cael ein cefnogi gan ymddiriedolaethau, sefydliadau a chyrff cyllido eraill. Rydym yn falch o lofnodi addewid Dim Hiliaeth Cymru, ac fe rydym yn Gyflogwr Cyflog Byw ac yn dal Marc Elusen Ddibynadwy NCVO Lefel Un.

Ein gweledigaeth yw i greu Cymru lle gall pawb ffynnu.

I gael rhagor o wybodaeth am yr SMC, ein gwaith polisi, a sut i ymuno, naill ai fel cefnogwr unigol neu sefydliadol, cysylltwch â:

SMC – Sefydliad Materion Cymreig, Ystafell 6.01, sbarc | spark, Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ
ffôn: 029 2048 4387

e-bost: info@iwa.org.uk

www.iwa.wales

Mae'r SMC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr: 1078435 ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr



Mae'r adroddiad hwn yn rhan o waith ehangach yr IWA ar 'Feithrin dealltwriaeth a chyfranogiad yn nhrefodaeth barhaus Cymru am y cyfansoddiad' a ariennir gan y Sefydliad Addysg Gyfreithiol.



Cynnwys

Crynodeb gweithredol	4
1. Cyflwyniad	6
2. Diffinio 'arloesi democrataidd'	9
3. Arloesi democrataidd ym mhedwar ban byd: dulliau ac astudiaethau achos	14
3.1 Cynulladau bach i'r cyhoedd	14
3.1.a – Rheithgorau Dinasyddion	14
3.1.b – Cynulladau Dinasyddion	15
3.1.c – Deialogau Dinasyddion	17
3.2 Cyllidebu cyfranogol	18
3.3 Llywodraethiant cydweithredol	19
3.4 Refferenda a mentrau dinasyddion	21
3.4.a – Refferenda	21
3.4.b – Mentrau dinasyddion	22
3.5 Dulliau creadigol a chelfyddydol i hybu cyfranogiad a chyd-drafod rhwng dinasyddion	23
3.5.a – Gweithdai dylunio dwys (<i>charrettes</i>)	24
3.5.b – Theatr ddeddfwriaethol	24
3.6 Adnoddau digidol ac arloesi	25
4 Arfer da wrth ddefnyddio arloesi democrataidd	27
4.1 Pwy sy'n rhan o'r broses?	27
4.2 Pa agwedd ar arloesi democrataidd i'w defnyddio?	29
4.3 Sut y dylid hwyluso arloesi democrataidd?	29
4.4 I ba raddau y mae arloesi democrataidd yn effeithio ar wleidyddiaeth ddemocrataidd?	30
4.5 Sut y mae creu capasiti ar gyfer meithrin arloesi democrataidd?	31
5 Meithrin arloesi democrataidd yng Nghymru: cryfderau, heriau ac argymhellion	33
5.1 Cryfderau i greu sylfaen: Profiad Cymru o arloesi democrataidd	33
5.2 Heriau i'w goresgyn	34
5.3 Argymhellion ar gyfer meithrin arloesi democrataidd yng Nghymru	34
Atodiad: Cronfeydd Data a Chanllawiau ar Arloesi Democrataidd	36
Nodiadau	39

Crynodeb gweithredol

Nid yw democratiaeth yng Nghymru mewn cyflwr iach. Mae'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau yn isel, gyda diffyg gwybodaeth am sut mae llywodraeth ddemocrataidd yn gweithio a diffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth a gwleidyddion. Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn teimlo na allant ddylanwadu ar y penderfyniadau gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae ymdeimlad cyffredinol nad yw bywyd yn mynd yn well nac yn haws.

Nid yw'r heriau hyn yn unigryw i Gymru. Mae tueddiadau tebyg yn amlwg ledled y byd. Mewn ymateb, cynyddodd y diddordeb mewn canfod ffyrdd o weithredu democratiaeth yn wahanol. Canolbwynt llawer o'r sylw oedd yr hyn sy'n cael ei alw'n 'arloesi democrataidd'. Gweithgareddau ydynt sy'n ceisio gwreiddio rôl dinasyddion mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd y tu hwnt i'r gweithredoedd confensiynol o bleidleisio mewn etholiadau ac ymateb i ymgynghoriadau. Eu nod yw grymuso dinasyddion i lunio'r cymdeithasau maen nhw'n byw ynddynt trwy gyd-drafod a chyfranogi yn y gwaith o wneud penderfyniadau.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio potensial arloesi democrataidd ar gyfer gwella iechyd democratiaeth Cymru. Mae ganddo dri nod:

1. **Codi ymwybyddiaeth o arloesi democrataidd: beth mae'n ei olygu, sut mae'n ychwanegu gwerth at wleidyddiaeth ddemocrataidd, a sut mae'n cael ei ddefnyddio ledled y byd?**

Mae tystiolaeth ryngwladol gynyddol o botensial arloesi democrataidd i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu democratiaethau cynrychioliadol. Gall arloesi democrataidd fod ar sawl ffurf, gan ddarparu gwahanol ffyrdd o gefnogi cyfranogiad a chyd-drafod y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau.

Ar ôl diffinio'r term 'arloesi democrataidd' wrth i ni ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyflwyno rhai o'r gwahanol ddulliau hyn ac yn darparu astudiaethau achos o sut y cawsant eu defnyddio mewn gwahanol leoedd i gynnwys dinasyddion mewn prosesau democrataidd. Rydym yn ystyried y datblygiadau democrataidd canlynol:

- **cynulladau bach i'r cyhoedd**, fel cynulladau, rheithgorau a deialogau dinasyddion, lle mae sampl cynrychioliadol o ddinasyddion yn cyd-drafod materion polisi ac yn cynnig argymhellion;
- **cyllidebu cyfranogol**, sy'n caniatáu i ddinasyddion benderfynu sut i ddyrannu arian cyhoeddus;
- **llywodraethu cydweithredol**, sy'n rhoi cyfle i ddod â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau, sefydliadau â buddiant a dinasyddion ynghyd i edrych ar ddatrysiadau polisi gyda'i gilydd;
- **referenda a mentrau dinasyddion**, sy'n cynnig cyfleoedd i bleidleisio'n uniongyrchol ar faterion polisi penodol;
- **dulliau creadigol a chelfyddydol**, sy'n cefnogi dinasyddion i ddod â phrofiadau emosiynol a phrofiad bywyd i gyfranogiad a chyd-drafod; ac
- **adnoddau digidol ac arloesi**, sy'n gallu hwyluso cyfranogiad ehangach a mwy cynhwysol gan ddinasyddion.

2. Nodi arfer da wrth gynllunio a chyflwyno arloesi democrataidd

Gan bwysu ar brofiadau rhyngwladol a gwerthusiadau o arloesi democrataidd, rydym yn nodi pum elfen o arfer da mewn perthynas â chynllunio a chyflwyno'r dulliau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys ystyriaethau megis pwy sy'n cyfranogi, pa fath o arloesi democrataidd i'w ddefnyddio, rôl cynllunio a hwyluso, sicrhau bod arloesi democrataidd yn cael effaith, a meithrin gallu i feithrin cyfranogiad dinasyddion mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd. Byddai'n werth i unrhyw ymdrech i feithrin arloesi democrataidd yng Nghymru ystyried yr arfer da hwn.

3. Nodi camau ar gyfer meithrin democratiaeth Gymreig fwy arloesol

Wedi'i lywio gan brofiad rhyngwladol ac arfer da sy'n datblygu yn y maes, yn ogystal ag asesiad o brofiad Cymru o'r dulliau hyn hyd yma, rydym yn argymhell tri cham penodol i Gymru eu cymryd i feithrin democratiaeth Gymreig fwy arloesol.

Nod y rhain yw adeiladu ar gryfderau'r presennol ac ar gyfleoedd clir i arloesi democratiaeth yng Nghymru ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys ymrwymiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyfranogiad a chydweithrediad dinasyddion, sefydlu Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, a diwygiadau arfaethedig i'r Senedd gyda'r bwriad o greu senedd Gymreig sy'n gallu gwasanaethu pobl yng Nghymru yn well. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn creu cyd-destun addawol ar gyfer gweithredu democratiaeth yn wahanol yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae ein hargymhellion hefyd yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu Cymru wrth symud ymlaen â'i huchelgeisiau democrataidd. Mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau cyffredin hyd yma o arloesi democrataidd unswydd ac untro, gydag effaith gyfyngedig ar y broses o wneud penderfyniadau; cyfleoedd cyfyngedig i rannu profiadau a chreu cymuned ymarfer gefnogol; a gwendid o ran gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y maes hwn

Rydym yn cynnig y camau canlynol i alluogi Cymru i feithrin democratiaeth fwy arloesol:

- Ymdrech fwy cadarn, wedi'i chydlynu'n well, i hybu ymwybyddiaeth o beth yw arloesi democrataidd, a pham y gall helpu i fynd i'r afael â'r heriau i ddemocratiaeth Cymru.
- Gwaith ymchwil pellach i fapio a gwerthuso enghreifftiau o arloesi democrataidd sydd yng Nghymru eisoes, er mwyn deall cryfderau cyfredol yn well a nodi rhwystrau ar gyfer ehangu ac ymestyn y dulliau hyn.
- Proses gynllunio systematig a chydweithredol sy'n dwyn ynghyd unigolion a sefydliadau allweddol i gyd-gynhyrchu cynigion penodol ar gyfer meithrin arloesi democrataidd parhaus ac effeithiol yng Nghymru.

1. Cyflwyniad

Nid yw democratiaeth yng Nghymru mewn cyflwr iach. Yn y 25 mlynedd o ddatganoli yng Nghymru, mae llai na 50% o bleidleiswyr wedi bwrw eu pleidlais ym mhob un o etholiadau'r Cynulliad neu'r Senedd hyd yma. Mae lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth am sut mae llywodraeth ddemocrataidd yn gweithio yng Nghymru a'r DU yn isel,¹ yn ogystal â lefelau ymddiriedaeth mewn gwleidyddion a sefydliadau etholedig.² Mae'r rhan fwyaf o bobl hefyd yn teimlo na allant ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ar lefel y DU, Cymru neu yn lleol.³ Yn ategu'r profiad hwn o ddiethrio democrataidd mae ymdeimlad nad yw bywyd yn gwella i bobl yng Nghymru. Mae gwasanaethau cyhoeddus mewn cyflwr enbyd, mae anghydraddoldeb ar gynnydd, mae'r argyfwng costau byw wedi taro incwm pobl ac mae sefyllfa plant a phobl ifanc yn waeth ers y pandemig.⁴ Mae llesiant cyfunol yng Nghymru – hynny yw, ymdeimlad pobl eu bod yn byw yn well neu'n waeth dros amser – wedi aros yn ei unfan.⁵

Mae democratiaeth gynrychioliadol yn wynebu heriau y tu hwnt i Gymru hefyd. Mae adroddiad Global State of Democracy 2024 yn nodi bod cyfranogiad mewn etholiadau ledled y byd yn parhau i ostwng, ac mae dilysrwydd canlyniadau etholiadol yn cael eu herio fwy a mwy.⁶ Canfu arolwg diweddar gan yr OECD ar sbardunau ymddiriedaeth mewn sefydliadau cyhoeddus mai dim ond 39% o'r ymatebwyr a oedd yn nodi ymddiriedaeth uchel neu gymharol uchel yn llywodraeth genedlaethol eu gwlad; roedd ychydig yn fwy (44%) yn nodi ymddiriedaeth isel neu ddim ymddiriedaeth.⁷ Canfu'r un arolwg mai dim ond 30% sy'n teimlo bod systemau gwleidyddol cyfredol yn rhoi llais iddynt, gan ddangos diffyg ymddiriedaeth mewn llawer o arferion cyffredin ymgynghori cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae perthynas rhwng y canlyniadau hyn â statws economaidd, sy'n awgrymu bod yr heriau i lesiant yng Nghymru yn cael eu hadleisio ledled y byd. Mae'r rhan fwyaf o bobl mewn democratiaethau etholiadol ledled y byd yn dweud bod angen newidiadau mawr neu ddiwygio llwyr ar eu system wleidyddol.⁸

Mae ymdrechion i fynd i'r afael â'r heriau hyn, ac adfywio democratiaeth gynrychioliadol, wedi canolbwyntio'n gynyddol ar ffyrdd newydd o gynnwys dinasyddion yn y gwaith o wneud penderfyniadau. Mae'r dulliau hyn, sy'n aml yn cael eu galw'n arloesi democrataidd, yn ceisio cynyddu a gwreiddio cyfranogiad dinasyddion yn y broses o lunio polisiau.⁹ Mae ffocws y cyfranogiad hwn yn mynd y tu hwnt i bleidleisio mewn etholiadau a dim byd mwy na darparu gwybodaeth am benderfyniadau polisi neu ymgysylltu â'r cyhoedd gydag ymgynghoriadau. Y nod yw cynnwys a chydweithio â'r cyhoedd i ystyried manylion gwahanol faterion a dylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau.¹⁰

Mae sawl ffurf wahanol ar arloesi democrataidd. Er enghraifft, ers ei gyflwyno yn Porto Alegre ym Mrasil yn y 1980au, mae cyllidebu cyfranogol wedi'i ddefnyddio ledled y byd i roi mwy o lais i ddinasyddion ynghylch penderfyniadau am wariant y llywodraeth. Yn fwy diweddar, mewn sawl man, gosodwyd tasg i gynulliadau o ddinasyddion a ddewiswyd ar hap gyd-drafod a chynnig argymhellion ar faterion sy'n cynnwys hawliau erthyliad, cymorth i farw a newid hinsawdd. Mewn rhannau o Wlad Belg a'r Unol Daleithiau, mae cynulliadau a rheithgorau dinasyddion wedi dod yn nodweddion parhaol o'r gwaith democrataidd o wneud penderfyniadau.

Mae tystiolaeth ryngwladol gynyddol fod cynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau yn y ffyrdd arloesol hyn yn gallu helpu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu systemau democrataidd, y cyfeirir atynt uchod. Gall arloesi democrataidd gryfhau democratiaeth fel a ganlyn:

- **Gwella'r gwaith o lunio polisiau** trwy harneisio deallusrwydd cyfunol ystod eang o ddinasyddion sy'n cael eu heffeithio gan ryw fater;
- **Canfod datrysiadau i broblemau polisi cynhennus neu gymhleth**, yn enwedig rhai sy'n gofyn am aberth a chyfaddawd, neu atebion polisi hirdymor;
- **Creu gwell dilysrwydd i benderfyniadau polisi** sy'n ennyn cefnogaeth pobl oherwydd eu bod nhw wedi chwarae rhan yn y gwaith o'u llunio;
- **Creu dinasyddion mwy gwybodus a 'gweithredol'** sy'n fwy cyfarwydd â chymhlethdodau a'r angen am gyfaddawd wrth wneud penderfyniadau, ac sy'n teimlo'n fwy atebol i gyfranogi mewn gwleidyddiaeth yn eu cymunedau;
- **Ail-adeiladu ymddiriedaeth mewn democratiaeth** trwy roi llais ystyrlon i ddinasyddion a meithrin eu cred y gallant ddylanwadu ar wleidyddiaeth.¹¹

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau o'r safbwynt bod yr achos o blaid arloesi democrataidd yn cynyddu, a'i fod yn cynnig ffordd o fynd i'r afael â gwendidau democratiaeth Cymru. O'r safbwynt hwn, mae tri nod i'r adroddiad hwn:

- 1. Hybu ymwybyddiaeth o ddatblygiadau democrataidd: beth mae'n ei olygu, a sut mae'n cael ei ddefnyddio ledled y byd?**

Mae amrywiaeth o dulliau ac egwyddorion i gefnogi'r cyhoedd i drafod a chyfranogi yn y gwaith o wneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn amrywio o ran faint o bobl sy'n cymryd rhan, a sut maen nhw'n gwneud hynny; yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen; a'r mathau o faterion a chyd-destunau sydd fwyaf addas. Yn Adran 3, rydym yn cyflwyno rhai o'r dulliau hyn ac yn darparu astudiaethau achos o'u defnydd mewn gwahanol lefydd i gynnwys dinasyddion yn y broses ddemocrataidd.
- 2. Nodi arfer da wrth gynllunio a chyflwyno arloesi democrataidd**

Yn Adran 4, rydym yn pwysu ymhellach ar brofiadau a gwerthusiadau rhyngwladol i nodi arfer da wrth gynllunio a darparu arloesi democrataidd. Rydym yn ystyried pum thema: pwy sy'n cyfranogi, pa fath o arloesi democrataidd i'w ddefnyddio, rôl cynllunio a hwyluso, sut i sicrhau bod arloesi democrataidd yn cael effaith, a chynyddu'r gallu i feithrin cyfranogiad dinasyddion mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd.
- 3. Nodi ffyrdd o feithrin arloesi democrataidd yng Nghymru**

Yn Adran 5, rydym yn defnyddio profiad rhyngwladol ac arfer da i lywio camau penodol i feithrin arloesi democrataidd yng Nghymru. Mae yna elfennau cadarn i adeiladu arnynt: mae yna rywfaint o brofiad yn bodoli o'r dulliau hyn, a fframweithiau deddfwriaethol a gwleidyddol sy'n darparu ffocws clir ar gyfer cynnwys dinasyddion wrth wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol i'w goresgyn hefyd. Rydym yn argymhell tri cham gweithredu penodol a allai gynorthwyo Cymru i fod

yn ddemocratiaeth fwy arloesol, lle gall dinasyddion cyd-drafod a chyfranogi yn y gwaith o wneud penderfyniadau mewn ffordd barhaus ac effeithiol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar:

- hybu ymwybyddiaeth o arloesi democrataidd a'r gwerth ychwanegol y gall ei gynnig i ddemocratiaeth gynrychioliadol;
- galw am waith ymchwil pellach i wella'r ddealltwriaeth o'r rhwystrau i ehangu a graddio'r defnydd o arloesi democrataidd; a
- cynnig proses gynllunio systematig a chydweithredol i gyd-gynhyrchu cynigion penodol ar gyfer meithrin arloesi democrataidd parhaus ac effeithiol yng Nghymru.

2. Diffinio 'arloesi democrataidd'

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae poblogrwydd y term 'arloesi democrataidd' wedi tyfu'n gyflym ymhlith academyddion, ymarferwyr a llunwyr polisi sydd â diddordeb mewn ffyrdd amgen o gynnwys dinasyddion mewn democratiaeth. Mae wedi cael ei ddefnyddio mewn cyd-destunau gwahanol iawn i ddisgrifio ystod eang o weithgareddau, ac mewn perthynas â gwahanol feysydd polisi a materion polisi.¹² Nododd un o'r ymdrechion cyntaf i fapio'r defnydd o arloesi democrataidd ledled y byd 57 o amrywiaethau gwahanol.¹³

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau trwy fabwysiadu safbwynt y diffiniad o 'arloesi democrataidd' a nodwyd gan Elstub ac Escobar:

Democratic innovations are processes or institutions that are new to a policy issue, policy role, or level of governance, and developed to reimagine and deepen the role of citizens in governance processes by increasing opportunities for participation, deliberation and influence.¹⁴

Mae sawl agwedd ar y diffiniad hwn sy'n teilyngu craffu agosach, er mwyn egluro cwmpas yr arloesi democrataidd sy'n cael ei ystyried yn yr adroddiad hwn:

"prosesau neu sefydliadau sy'n newydd i fater polisi, rôl polisi, neu lefel llywodraethiant"

Felly mae proses yn un newydd os yw'n wahanol i'r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud, hyd yn oed os yw'r arloesi wedi'i brofi mewn cyd-destunau eraill. Er enghraifft, ni fyddai'r defnydd o adnoddau democratiaeth uniongyrchol fel refferenda yn cael ei ystyried yn arloesol yng nghyd-destun y Swistir, lle mae'r rhain yn fecanwaith safonol i ddinasyddion gynnig mewnbyn i benderfyniadau democrataidd.¹⁵ Mewn gwlad wahanol, lle nad yw refferenda wedi cael eu defnyddio o'r blaen, byddai'n bosibl ystyried bod eu cyflwyno yn achos o arloesi democrataidd. Nid dim ond mewn cyd-destun daearyddol y mae newydd-deb yn berthnasol; yn ehangach, mae modd iddo gwmpasu maes polisi, lefel llywodraethiant, a cham neu swyddogaeth yn y broses o lunio polisi.¹⁶

"ailystyried a gwreiddio rôl dinasyddion mewn prosesau llywodraethiant"

Mae hon yn nodwedd ddiffiniol a chreiddiol annatod o'r cysyniad o arloesi democrataidd.¹⁷ Nid yn unig y mae arloesi o'r fath wedi'i gynllunio i gynyddu dilysrwydd democrataidd; mae hefyd yn ailystyried dinasyddion fel cyd-gynhyrchwyr a datrysyr problemau. O ganlyniad, mae arloesi democrataidd yn gwreiddio dinasyddiaeth trwy ail-lunio ffiniau cyfranogiad a dylanwad.

Mae arloesi democrataidd hefyd yn golygu meddwl am rôl dinasyddion y tu hwnt i etholiadau, ac mewn perthynas â phrosesau llywodraethiant ehangach. Mae'r diffiniad hwn felly'n canolbwyntio ar ymdrechion i gynnwys dinasyddion mewn democratiaeth rhwng etholiadau, fel arfer yn ategol i etholiadau fel nodwedd

ganolog o systemau gwleidyddol democrataidd.¹⁸ O'r safbwynt hwn, mae prosesau llywodraethiant yn cyfeirio ein sylw at sut y gall dinasyddion gyfranogi'n ehangach yn y gwaith o wneud penderfyniadau gwleidyddol, e.e. wrth nodi blaenoriaethau polisi neu ddatblygu argymhellion polisi penodol.

Mae defnydd diweddar o arloesi democrataidd hefyd yn cyfeirio at ei rôl mewn llywodraethu yn ehangach, a thu hwnt i'r maes gwleidyddol. Er enghraifft, mae wedi cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau mewn ystod ehangach o leoliadau gan gynnwys gweithleoedd, ysgolion ac o fewn cymunedau a mudiadau cymdeithasol. Yn yr ystyr hwn, mae prosesau llywodraethiant hefyd yn gallu cyfeirio at unrhyw beth sy'n ymwneud â'r ffordd y mae grym yn cael ei arfer a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn cymdeithas. Ein prif ffocws yn yr adroddiad hwn yw cynnwys dinasyddion yn y gwaith o wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â systemau llywodraethu gwleidyddo.

“cyfleoedd ar gyfer cyfranogi, cyd-drafod a dylanwadu”

Mae defnyddio'r termau 'cyfranogi' a 'chyd-drafod' yn peri dryswch yn ymarferol, yn enwedig oherwydd eu bod yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol i gyfeirio at y ddefnydd gyffredin o wella cyfranogiad uniongyrchol dinasyddion yn y gwaith o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae ystyr gwahanol i'r ddau derm, ac maen nhw'n ceisio hyrwyddo dulliau ac arferion sy'n gysylltiedig ond sydd hefyd yn wahanol yn y pen draw. Mae Carson ac Elstub yn awgrymu bod cyfranogi a chyd-drafod yn wahanol mewn tair ffordd allweddol: nifer y cyfranogwyr, y math o gyfranogiad, a'r dull o ddewis cyfranogwyr (*gweler Ffigur 1*).¹⁹

Felly gall dulliau gwahanol o arloesi democrataidd hyrwyddo cyfranogi neu gyd-drafod i wahanol raddau, yn dibynnu ai'r bwriad yw hybu cynhwysiant neu feddylgarwch.²⁰ Yn ymarferol, gall y dulliau hyn orgyffwrdd – ac maent yn gorgyffwrdd yn aml – gyda llawer o brosesau yn cyfuno cyfranogi a chyd-drafod gan ddinasyddion (gweler yr enghreifftiau isod).

Ffigur 1: Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cyfranogi a chyd-drafod?

Cyfranogi	Cyd-drafod
1. Nifer y cyfranogwyr	
Cyfranogiad nifer fawr o bobl. Y nod yw taflu'r rhwyd yn eang, er mwyn cynnwys cymaint o bobl â phosibl sy'n cael eu heffeithio gan fater neu benderfyniad gwleidyddol, neu sy'n byw mewn awdurdodaeth benodol.	Nifer llai o gyfranogwyr, gan ei gwneud hi'n haws i'w cynnwys mewn trafodaethau manylach am faterion gwleidyddol, a myfyrio yn eu cylch.
2. Math o gyfranogi	
Oherwydd y flaenoriaeth i gynnwys cymaint o bobl â phosibl, mae eiriolwyr cyfranogi yn poeni llai am ddulliau penodol o gyfranogi. Maen nhw'n croesawu ac yn annog cyfleoedd amrywiol i gyfranogi, gan gynnwys arsylwi, gwrando, pleidleisio neu fynegi barn yn anuniongyrchol.	Mae cyd-drafod fel arfer yn golygu bod angen i gyfranogwyr i) fod yn wybodus am y pwnc; ii) ystyried safbwyntiau gwahanol; er mwyn iii) datblygu safbwynt gwbybodus.
3. Dull dethol	
Fel arfer ffeirir hunan-ddethol (h.y. cyfranogi agored), er mwyn caniatáu i gymaint o bobl â phosibl gymryd rhan.	Fel arfer, detholiad o ddinasyddion penodol sydd mewn rhyw ffordd yn cynrychioli grŵp ehangach (e.e. cymdeithas gyfan, neu boblogaeth benodol sy'n cael ei thargedu).

Mae arloesi democrataidd hefyd yn ceisio dylanwadu ar brosesau llywodraethiant.²¹ Gall hynny ddigwydd ar bwyntiau gwahanol yn y broses o wneud penderfyniadau: er mwyn pennu cyfeiriad cyffredinol, nodi opsiynau polisi, gwneud argymhellion polisi penodol neu graffu ar gynigion polisi, neu werthuso deilliannau polisi.

Ar sail y diffiniad hwn, mae modd nodi pum teulu gwahanol o arloesi democrataidd:

- cynullïadau bach i'r cyhoedd;
- cyllidebu cyfranogol;
- llywodraethiant cydweithredol;
- refferenda a mentrau dinasyddion;
- dulliau creadigol a chelfyddydol.²²

Mae cyfres arall o ddulliau arloesi ar waith ar draws y teuluoedd hyn:

- adnoddau digidol ac arloesi.

Mae'r adran nesaf yn diffinio pob un o'r teuluoedd hyn yn fanylach, ac yn rhoi enghreifftiau o sut maen nhw wedi cael eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r enghreifftiau'n dangos y ffyrdd niferus y mae arloesi democrataidd wedi cael ei ddefnyddio: mewn perthynas â gwahanol feysydd polisi, ar wahanol gamau o'r broses o lunio polisi, ac ar wahanol lefelau o lywodraethiant.²³ Rydym yn crynhoi'r wybodaeth hon yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1 – Crynodeb o wahanol fathau o arloesi democrataidd

Math o arloesi democrataidd	Nifer y cyfranogwyr	Nifer y cyfarfodydd	Math o gyfranogwyr	Dethol y cyfranogwyr	Modd o gyfranogi	Graddfa	Ffocws
Cynulladau bach							
Rheithgorau dinasyddion	12-25	2-5 diwrnod	Dinasyddion	Dethol ar hap	Cyd-drafod	Yn lleol/rhanbarthol yn bennaf	Materion polisi cyhoeddus penodol; datblygu polisi neu graffu
Cynulladau dinasyddion	30-160	15-25 diwrnod	Dinasyddion (gydag amrywiadau cymysg - dinasyddion + gwleidyddion)	Dethol ar hap	Cyd-drafod	Lleol/rhanbarthol/ taleithiol/trawswladol	Problemau polisi cymhleth neu gynhennus; materion sy'n seiliedig ar werthoedd; materion gwleidyddol sy'n 'ddisymud'
Deialogau dinasyddion	150-400 (llawer mwy ar gyfer fformatau ar-lein)	1-2 diwrnod	Dinasyddion + rhanddeiliaid	Dethol ar hap + hunan-ddethol/dethol rhanddeiliaid yn fwriadus	Cyfranogi a chyd-drafod	Rhanbarthol/taleithiol/ trawswladol	Materion dadleuol neu gymhleth, fframio penderfyniadau polisi'r dyfodol
Cyllidebu cyfranogol	100-1000oedd (yn dibynnu ar faint)	1-2 diwrnod; y broses yn cael ei haildrodd yn rheolaidd	Dinasyddion	Dethol ar hap, hunan-ddethol/neu ddethol bwriadus	Cyfranogi a chyd-drafod	Cymdogaeth/lleol yn bennaf (rhai yn daleithiol)	Nodi blaenoriaethau'r gyllideb, dyrannu arian i bolisiau/ prosiectau penodol
Llywodraethu cydweithredol	3 – 1000oedd (yn dibynnu ar faint)	Amrywiol yn dibynnu ar faint	Cyrff cyhoeddus, sefydliadau preifat a busnesau, grwpiau cymdeithas sifil + dinasyddion	Dethol bwriadus a/neu hunan-ddethol	Cyfranogi a chyd-drafod	Cymdogaeth/lleol yn bennaf, rhai yn daleithiol	Problemau penodol sydd angen gwybodaeth arbenigol; materion cymhleth sy'n gofyn am amrywiol safbwyntiau
Refferenda a mentrau dinasyddion	100 - miliynau	Fel arfer dim; gall amrywiadau sy'n trafod mwy gwrdd dros 1-10 diwrnod	Dinasyddion	Refferenda: hunan-ddethol Mentrau dinasyddion: dethol ar hap + hunan-ddethol	Cyfranogi (ond gall gynnwys elfennau cyd-drafod)	Rhanbarthol/taleithiol	Cymeradwyo/ gwrthod cynigion polisi penodol
Dulliau creadigol/ celfyddydol	8-30 (yn dibynnu ar faint)	Theatr ddeddfwriaethol: 1-2 ddiwrnod; <i>charrettes</i> neu weithdai dylunio dwys: 4-7 diwrnod	Dinasyddion, rhanddeiliaid a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau	Dethol bwriadus/ neu hunan-ddethol	Cyfranogi yn bennaf (ond gall gynnwys elfennau cyd-drafod)	Cymdogaeth/lleol	Datblygu polisi
Digidol	10au – 1000oedd (yn dibynnu ar faint)	Amh - Mae offer digidol yn caniatáu cyfranogiad ar-alw ac anghydamseredig	Dinasyddion	Hunan-ddethol	Cyfranogi a chyd-drafod	Lleol/rhanbarthol/ taleithiol/trawswladol	Amrywiol

3. Arloesi democrataidd ym mhedwar ban byd: dulliau ac astudiaethau achos

3.1 Cynulladau bach i'r cyhoedd

Mae llawer o'r diddordeb mewn arloesi democrataidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi canolbwyntio ar y defnydd cynyddol o brosesau cyd-drafod cynrychioliadol, neu gynulladau bach i'r cyhoedd, ledled y byd. Mae enghreifftiau ohonynt yn cynnwys cynulladau dinasyddion a rheithgorau dinasyddion, sydd wedi tyfu mewn poblogrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mewn adroddiad dylanwadol a gyhoeddwyd yn 2021, bathodd yr OECD y term “the deliberative wave”²⁴ i grynhoi'r twf mewn cynulladau bach i'r cyhoedd: yn 2020, cofnodwyd 282 o brosesau o'r fath, ond roedd y ffigur wedi cynyddu i 733 erbyn 2023.²⁵

Fel prosesau cyd-drafod cynrychioliadol, mae dwy nodwedd ddiffiniol i gynulladau bach i'r cyhoedd. Yn gyntaf, mae cyfranogiad yn digwydd trwy ddewis dinasyddion ar hap, a'r dinasyddion hynny'n cynrychioli'r cyhoedd yn ehangach mewn rhyw ffordd (felly cynulladau bach i'r cyhoedd). Mae dewis cyfranogwr yn aml yn cael ei wneud trwy fwrw coelbren, h.y. dewis ar hap ar ffurf loteri. Fel arfer, mae hyn yn golygu dewis trwy samplu haenedig ar hap fel bod ystod o nodweddion demograffig (e.e. oedran, rhywedd, ethnigrwydd, incwm, daearyddiaeth, iaith) o'r boblogaeth ehangach yn cael eu cynrychioli. Mewn rhai achosion, mae'r gwaith o ddethol hefyd yn ystyried barn cyfranogwyr ar y materion sy'n cael eu hystyried.

Yn ail, mae'r dull o gyfranogi a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar gyd-drafod. Mae cynulladau bach i'r cyhoedd yn dilyn proses fesul cam sy'n nodweddiadol o'r rhan fwyaf o brosesau cyd-drafod: i) *cyfnod dysgu* lle mae cyfranogwyr yn derbyn gwybodaeth am bwnc o wahanol safbwyntiau; ii) *cyfnod cyd-drafod* lle mae'r wybodaeth yn cael ei hystyried a'i thrafod; a iii) *cyfnod o wneud penderfyniadau* lle mae cyfranogwyr yn mynegi safbwyntiau gwybodus (ac yn aml yn pennu blaenoriaethau, nodi datrysiadau neu gynnig argymhellion).²⁶

Y tu hwnt i'r nodweddion craidd hyn, mae cynulladau bach i'r cyhoedd wedi cymryd sawl ffurf wahanol gydag amrywiadau yn nifer y cyfranogwyr dan sylw, pa mor hir maen nhw ar waith, a'r mathau o faterion maen nhw wedi'u hystyried.²⁷ Yng ngweddill yr adran hon, rydym yn canolbwyntio ar dri math o gynulliad bach i'r cyhoedd sydd wedi cael eu defnyddio amlaf ledled y byd: rheithgorau dinasyddion, cynulladau dinasyddion a deialogau dinasyddion.²⁸

3.1.a – Rheithgorau Dinasyddion

Mae rheithgorau dinasyddion fel arfer yn cynnwys 12-25 o bobl ac yn cyfarfod dros gyfnod o 3 i 5 diwrnod.²⁹ Er bod gwahaniaethau pwysig, maen nhw'n aml yn cael eu cymharu gyda rheithgorau cyfreithiol: yn debyg i'r rheithgor cyfreithiol, mae rheithgor dinasyddion yn tybio bod grŵp bach o bobl gyffredin, heb hyfforddiant arbennig, yn fodlon ac yn gallu gwneud penderfyniadau pwysig er budd y cyhoedd.³⁰ Maen nhw'n tueddu i gael eu comisiynu gan lywodraethau i ystyried materion polisi cyhoeddus penodol, ac yn aml maen nhw wedi cael eu defnyddio i geisio barn dinasyddion mewn meysydd gan gynnwys seilwaith, iechyd, cynllunio trefol a'r

amgylchedd. Mae nhw fel arfer yn gwneud hynny mewn modd ymgynghorol, gyda'r casgliadau/argymhellion yn aml yn cael eu defnyddio i helpu i osod agenda bolisi neu i lywio dewisiadau rhwng opsiynau polisi.³¹

Mae'r rhan fwyaf o reithgorau dinasyddion yn cael eu trefnu ar sail untro. Yn Oregon yn yr Unol Daleithiau, fodd bynnag, maen nhw'n nodwedd graidd o broses Adolygiad Menter Dinasyddion sy'n nodwedd barhaol o ddeddfu yn y wladwriaeth (gweler yr Astudiaeth Achos yn Adran 3.4.b isod).³²

Astudiaeth achos

Rheithgor cymunedol Noosa ar reoli gwastraff organig (Awstralia)

Yn 2014, trefnodd cyngor sirol Noosa yn Queensland reithgor dinasyddion 24 aelod i ystyried yr opsiwn gorau o leihau gwastraff organig a oedd yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.³³ Cyfarfu'r rheithgor yn fisol dros gyfnod o 6 mis; ystyriwyd tystiolaeth gan amrywiaeth o arbenigwyr a grwpiau/sefydliadau â buddiant, a chafwyd hefyd gyflwyniadau gan y cyhoedd yn ehangach. Ar ddiwedd y broses, cyflwynwyd adroddiad unfrydol yn cynnig naw argymhelliad ar gyfer lleihau'r gwastraff organig a oedd yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn y gymuned. Cafodd y rhain eu derbyn gan y Cyngor ac maen nhw wedi arwain at bolisiâu newydd ar gasglu gwastraff ac ymgyrch addysg 'dim gwastraff'.

Astudiaeth achos

Rheithgor dinasyddion Senedd yr Alban ar reoli tir a'r amgylchedd naturiol (y DU)

Noddwyd y rheithgor dinasyddion gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir Senedd yr Alban.³⁴ Wedi'i gynnal dros benwythnos ym mis Mawrth 2019, archwiliodd ei 21 o gyfranogwyr y cwestiwn o gynllunio cyllid a chyngor ar gyfer rheoli tir i helpu amgylchedd naturiol yr Alban. Daeth y rheithgor i gonsensws ar egwyddorion model ariannu newydd ar gyfer rheoli tir yn y dyfodol, ac mae'r rhain wedi llywio polisiâu dilynol Llywodraeth yr Alban ar y mater hwn.

3.1.b – Cynulliadau Dinasyddion

Mae cynulliadau dinasyddion fel arfer yn cynnwys mwy o gyfranogwyr na rheithgorau dinasyddion – rhwng 30 a 160 o ddinasyddion – ac maen nhw'n cyfarfod am gyfnod hwy (18 diwrnod ar gyfartaledd³⁵ ac yn aml dros sawl mis). Yn union fel rheithgorau dinasyddion, maen nhw fel arfer yn cynnwys dinasyddion a ddewiswyd i gynrychioli'r gymuned neu'r gymdeithas ehangach mewn ffyrdd penodol. Mae eithriadau i'r dull safonol hwn: pan sefydlwyd confensiwn cyfansoddiadol Iwerddon yn 2012, cafodd model hybrid ei fabwysiadu a oedd yn cynnwys 66 dinesydd (wedi'u dethol ar hap) a 33 o wleidyddion (hunan-ddetholedig).³⁶

Mae cynulliadau dinasyddion yn cael eu defnyddio'n aml ar gyfer pynciau cymhleth neu gynhennus, pan fydd cyfyng-gyngor yn seiliedig ar werthoedd, neu pan fo'r materion yn y categori 'rhy anodd' – lle mae'r rhai sydd mewn grym yn debygol o wynebu gwrthwynebiad sut bynnag maen nhw'n gweithredu.³⁷ Yn ymarferol, maen nhw wedi cael eu defnyddio i ystyried materion cyfansoddiadol (e.e. diwygio'r cyfansoddiad yn Iwerddon³⁸, a diwygio etholiadol yn British Columbia³⁹ a Yukon⁴⁰, heriau cymdeithasol fel newid hinsawdd,⁴¹ materion gwleidyddol neu foesebol cymhleth fel cymorth i farw⁴² ac addasu genetig,⁴³ a materion polisi cyhoeddus

mwy penodol fel cynllunio trefol a thrafnidiaeth.⁴⁴ Mae datblygiadau diweddar hefyd yn cynnwys cynulladau dinasyddion gyda phlant a phobl ifanc.⁴⁵ Maen nhw wedi cael eu defnyddio'n gynnar yn y broses bolisi i gasglu barn ac annog trafodaeth gyhoeddus eang, neu yn ddiweddarach i archwilio opsiynau polisi penodol. Er bod cynulladau dinasyddion wedi'u trefnu yn bennaf ar lefel y wladwriaeth a llywodraeth leol, maen nhw hefyd yn cael eu mabwysiadu ar raddfeydd cymunedol ac uwchwladol/byd-eang.

Yn union fel rheithgorau dinasyddion, mae cynulladau dinasyddion wedi'u trefnu yn bennaf fel fforymau untro sy'n dod i ben unwaith y bydd y cyd-drafodaethau wedi'u cwblhau a chytundeb ar gasgliadau neu argymhellion wedi digwydd. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, sefydlwyd cynulladau dinasyddion parhaol (gweler 'Ost Belgian' yn yr Astudiaethau Achos isod) sy'n cysylltu â sefydliadau gwleidyddol ffurfiol yn barhaus (gweler hefyd Adran 4 isod).

Astudiaeth achos

Cynulliad cymunedol Burnaby i ddatblygu Cynllun Cymunedol Swyddogol (Canada)

Trefnodd cyngor dinas Burnaby yn British Columbia gynulliad dinasyddion i gyfrannu at ei gynlluniau i gyfeirio a rheoli twf rhwng 2024 a 2050. Cyfarfu grŵp cynrychioliadol o 40 o breswylwyr dros gyfnod o 8 diwrnod i glywed a thrafod tystiolaeth gan arbenigwyr, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd yn ehangach.⁴⁶ Lluniwyd 24 argymhelliad yn ymwneud ag elfennau penodol o gynllun cymunedol swyddogol newydd – gan gynnwys defnydd tir, trafndiaeth, tai a chyfleusterau cymunedol – yn ogystal ag egwyddorion ehangach yn unol â'r penderfyniadau y dylid eu gwneud yn y dyfodol.⁴⁷ Mae cyngor dinas Burnaby wedi ymrwmo i ymateb i argymhellion y cynulliad, a bydd y cynulliad yn ail-gyfarfod pan gyhoeddir fersiwn ddrafft o'r Cynllun Cymunedol Swyddogol er mwyn ei adolygu a darparu adborth.

Astudiaeth achos

Deialog Dinasyddion Parhaol, Ostbelgien (Gwlad Belg)

Ym mis Chwefror 2019, pasiodd senedd Ostbelgien, cymuned Almaeneg ei hiaith, ddeddf yn sefydlu model ar gyfer cyd-drafod parhaol gan ddinasyddion.⁴⁸ Mae'n cynnwys Cyngor Dinasyddion parhaol o 24 aelod, sy'n cael eu dewis ar hap ac sy'n aelodau am 18 mis. Mae'r Cyngor Dinasyddion yn gallu ffurfio cynulladau dinasyddion untro i gyd-drafod a llunio argymhellion ar unrhyw bwnc mae'r cyngor yn ei gyflwyno iddyn nhw; mae'r rhain yn cael eu dewis o blith pynciau sy'n cael eu hawgrymu yn dilyn galwad agored i'r cyhoedd. Mae argymhellion y cynulladau dinasyddion yn cael eu cyd-drafod mewn pwyllgor o aelodau'r cynulliad dinasyddion, cynrychiolwyr etholedig a gyda gweinidog perthnasol y llywodraeth ar gyfer y mater hwnnw. Mae'n ofynnol i'r cynrychiolwyr etholedig a'r gweinidog nodi a fydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu gan y senedd ranbarthol neu'r llywodraeth, ac mae angen cyfiawnhad penodol dros unrhyw beth sy'n cael ei wrthod Mae'r pynciau trafod hyd yn hyn yn cynnwys gofal iechyd, sgiliau digidol ac integreiddio mewnffudwyr.⁴⁹

3.1.c – Deialogau Dinasyddion

Mae deialogau dinasyddion (neu ddeialogau cyhoeddus) yn debyg i reithgorau a chynulladau dinasyddion i'r graddau eu bod yn ceisio cynnwys sampl gynrychioliadol o ddinasyddion mewn proses strwythuredig lle maen nhw'n dysgu am fater penodol ac yn ei gyd-drafod. Fel cynulladau dinasyddion, mae deialogau dinasyddion hefyd yn aml yn canolbwyntio ar faterion cymhleth neu ddadleuol, gyda'r nod o fwydo i benderfyniadau polisi yn y dyfodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys dyfodol gofal iechyd,⁵⁰ rheoli gweddillion tanwydd niwclear yn yr hirdymor⁵¹ a lleihau allyriadau carbon.⁵²

Fodd bynnag, maen nhw'n wahanol mewn pedair ffordd. Yn gyntaf, mae dinasyddion yn cael eu cynnull mewn sawl lleoliad fel rhan o'r broses, i ystyried yr un mater. Er enghraifft, roedd deialog dinasyddion ar strategaeth ddiogelwch genedlaethol newydd yn yr Almaen yn 2022 yn cynnwys trafodaethau mewn saith dinas wahanol fel rhan o'r broses.⁵³ Yn wir, mae'r rhain yn aml yn brosesau ar draws y dalaith gyfan, gydag enghreifftiau diweddar hefyd yn uwchwladol⁵⁴ a byd-eang⁵⁵ eu cwmpas. Yn ail, ac oherwydd hyn, mae nifer y dinasyddion dan sylw fel arfer yn fwy; mae'n gallu amrywio o 150 i 400 ar gyfer prosesau talaith gyfan, ond mae'n gallu cyrraedd miloedd o gyfranogwyr mewn fformatau traws-gwlad ac ar-lein. Fel arfer, byddai'r rhai sy'n cael eu dewis i gyfranogi yn cyfarfod am y dydd neu dros ddeuddydd. Yn drydydd, mae deialog ymhlith dinasyddion yn aml yn cyd-daro â deialogau tebyg gyda sefydliadau â buddiant neu sefydliadau sy'n cael eu heffeithio, ac mae'r ddwy elfen yn bwydo i mewn i ddeilliannau'r ddeialog. Yn bedwerydd, ac yn wahanol i gynulladau bach i'r cyhoedd eraill, nid oes rheidrwydd i gyfranogwyr gyflwyno argymhellion penodol bob tro. Yn hytrach, maen nhw'n cael eu gwahodd i archwilio eu hymatebion gwybodus i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn.

Astudiaeth achos

Deialog Dinasyddion ar Ddyfodol Ynni Canada

Yn 2017, ac fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus 'Generation Energy' gan Natural Resources Canada, trefnwyd deialog dinasyddion i drafod sut y dylai dyfodol ynni Canada edrych dros gyfnod o un genhedlaeth a sut i gyrraedd y pwynt hwnnw.⁵⁶ Cyfranogodd 146 o ddinasyddion mewn deialogau rhanbarthol mewn pum dinas ledled Canada; dewiswyd 35 o'r rhain hefyd i gymryd rhan mewn deialog ledled Canada tua diwedd y broses. Daeth y broses i ben gyda chonsensws ar gyfres derfynol o argymhellion i'r llywodraeth; roedd y rhain yn cynnwys meini prawf ac egwyddorion cyffredinol i lywio polisi a gwneud penderfyniadau, yn ogystal ag argymhellion penodol yn ymwneud â llywodraethu a chamau gweithredu i hyrwyddo dyfodol ynni Canada.

3.2 Cyllidebu cyfranogol

Cyllidebu cyfranogol yw'r syniad y dylai dinasyddion cyffredin gael llais uniongyrchol yn y cyllidebau cyhoeddus sy'n dylanwadu ar eu bywydau a'u cymunedau.⁵⁷ Mae fel arfer yn cael ei sbarduno gan lywodraethau yn dyrannu swm penodol o arian i broses cyllidebu cyfranogol. Wedi hynny, gwahoddir dinasyddion i gynhyrchu syniadau, trafod, myfyrio a phleidleisio ar sut i ddyrannu'r arian hwn. Mae'r llywodraeth wedyn yn gwario'r arian a ddyrannwyd yn unol â dewis y dinasyddion (fel arfer yn dilyn gwiriadau technegol, cyfreithiol a dichonoldeb). Fel hyn, mae cyllidebu cyfranogol yn cynnwys dinasyddion yn uniongyrchol yn y gwaith o wneud penderfyniadau ariannol.

Drwy wneud dinasyddion yn rhan o brosesau cyllidebol dieithr ac annelwig, mae cyllidebu cyfranogol yn cael ei awgrymu fel ffordd o ddsbarthu adnoddau a ffordd o lywodraethu sy'n grymuso dinasyddion i wella eu dealltwriaeth o'u hawliau a'u dyletswyddau fel dinasyddion, yn ogystal â chyfrifoldebau'r llywodraeth.⁵⁸ Caiff ei ystyried hefyd yn ddull effeithiol wrth ymgysylltu â chyfranogwyr sy'n aml yn cael eu gwthio i'r cyrion neu eu heithrio gan weithdrefnau democraidd traddodiadol (e.e. pobl ifanc, grwpiau incwm isel a'r rhai sydd â lefelau is o addysg ffurfiol) er mwyn egluro penderfyniadau ariannol sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau.⁵⁹

Wrth i gyllidebu cyfranogol ledaenu ledled y byd ers ei ddatblygiad ym Mrasil yn y 1980au,⁶⁰ mae amrywiadau o'r model gwreiddiol hefyd wedi cynyddu.⁶¹ Er enghraifft, mae modd dewis cyfranogwyr trwy hunan-ddethol, dethol bwriadus, ethol cynrychiolwyr neu trwy gyfuniad o'r dulliau hyn. At hynny, er bod cyllidebu cyfranogol wedi'i ddefnyddio'n bennaf ar lefel cymdogaethau neu lywodraeth leol, mae enghreifftiau ohono hefyd yn cael ei ddefnyddio ar lefel gwladwriaeth (e.e. yn Ne Korea⁶²). Gall graddfa'r cyfranogi amrywio o gannoedd yn y ddau achos cyntaf, i filoedd lawer yn y trydydd achos. Mae modd defnyddio'r dull naill ai ar gam llunio neu gam gwneud penderfyniadau'r broses bolisi.⁶³

Astudiaeth achos

Cyllidebu cyfranogol ledled y ddinas yn Warsaw (Gwlad Pwyl)

Ers 2018, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ddinasoedd mawr yng Ngwlad Pwyl ymrwymo o leiaf 0.5% o'u cyllidebau i brosesau cyllidebu cyfranogol. Mae Warsaw yn cyflawni ei llog cylch cyllidebu cyfranogol yn 2024, ac mae datblygiadau arloesol yn cynnwys caniatáu cyfranogiad llawn i blant dros 13 oed a chyfranogiad rhannol i blant iau sy'n dal i allu cyflwyno cynigion am brosiectau.⁶⁴ Mae dinasyddion yn cyflwyno ac yn pleidleisio dros gynigion i'w hystyried, a threfnir cyfarfodydd cyhoeddus i rannu gwybodaeth a thrafod y rhai mwyaf poblogaidd. Mae dinasyddion wedyn yn pleidleisio ar gynigion i'w hariannu; yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhain wedi cynnwys plannu coed trefol, adnewyddu palmentydd a llwybrau beicio, adnoddau ar gyfer cyfleusterau gofal iechyd a digwyddiadau diwylliannol.⁶⁵

Astudiaeth achos**Cyllidebu cyfranogol ar lefel leol yn Cascais (Portiwgal)**

Mae cyfraddau defnydd cyllidebu cyfranogol ar lefel leol ym Mhortiwgal ymhlith y cyfraddau uchaf yn y byd.⁶⁶ Dinas Cascais sydd wedi mynd bellaf yn y cyd-destun hwn, o ran lefel y cyfranogiad a gyflawnwyd a'r cyllid a ddyrannwyd i'r broses cyllidebu cyfranogol.⁶⁷ Mae dinasyddion yn cyflwyno ac yn pleidleisio ar gynigion yn gyntaf trwy wefan sy'n cael ei rhedeg gan y cyngor tref. Mae'r ddau gynnig mwyaf poblogaidd yn cael eu trafod yn ystod gweithdai cyhoeddus wyneb yn wyneb sy'n agored i bob preswlydd. Mae unrhyw gynnig sy'n pasio prawf dichonoldeb y cyngor tref yn mynd i bleidlais gyhoeddus fis o hyd, gyda phleidleisio'n digwydd trwy neges destun.⁶⁸ Gall cyfranogwyr hefyd fwrw un bleidlais negyddol i nodi eu gwrthwynebiad i gynnig,⁶⁹ gan ddarparu mecanwaith ar gyfer gwrthod awgrymiadau mwy dadleuol. Mae'r bleidlais yn rhwymo'r cyngor lleol, sy'n ymrwmo i ariannu'r cynigion sydd wedi derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau.⁷⁰ Ynghyd â phrofiadau lleol eraill, dyma oedd sail ymdrechion ar ddiwedd y 2010au i raddio cyllidebu cyfranogol i lawr i lefel cynghorau cymuned a phlwyf, ac i fyny i lefelau rhanbarthol a lefel gwladwriaeth (er bod yr olaf wedi'i oedi ers y pandemig COVID-19).⁷¹

3.3 Llywodraethiant cydweithredol

Yn gyffredinol, llywodraethu cydweithredol yw'r term am broses lle mae amrywiaeth o gyfranogwyr – cyrff cyhoeddus, sefydliadau preifat, grwpiau cymdeithas sifil a dinasyddion – yn cydweithio i fynd i'r afael â mater.⁷² Mae gwneud penderfyniadau cydweithredol yn darparu amgylchedd cynhaliol – neu 'gynhwysydd' – i gynnwys yr ecosystem gyfan i wneud penderfyniadau i gyflawni nod cyffredin.⁷³ Yn aml yn canolbwyntio ar bolisi cyhoeddus neu fater rheoli cyhoeddus, mae'r teulu hwn o ddulliau yn cynnwys amrywiad sylweddol o ran pwy sy'n cyfranogi, pa fathau o gyfranogi a dulliau sy'n cael eu defnyddio i ddod i gonsensws, a'r hyn sy'n digwydd i'r casgliadau neu'r argymhellion ar ôl iddynt gael eu cadarnhau.⁷⁴

Er enghraifft, gall prosesau llywodraethiant cydweithredol gyfuno fforymau cyhoeddus, partneriaethau a mathau eraill o arloesi democrataidd. Mae'n bosibl eu bod nhw hefyd yn cynnwys sawl cam wrth i heriau gael eu hailasesu, wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei, ac wrth i gyfranogwyr newydd ddod i'r amlwg, naill ai'n rhai sydd â buddiant neu'n rhai sy'n cael eu heffeithio.⁷⁵ Gall lefel eu dylanwad amrywio hefyd, o statws cynghorol ac ymgynghorol i gyd-lywodraethu ac awdurdod uniongyrchol.⁷⁶

Astudiaeth achos***Etorkizuna Eraikiz ('Adeiladu'r Dyfodol'), Gipuzkoa (Gwlad y Basg)***

Dan arweiniad cyngor taleithiol Gipuzkoa, sefydlwyd menter *Etorkizuna Eraikiz* yn 2016 i hwyluso deialog rhwng y cyngor taleithiol, busnesau, grwpiau cymdeithas sifil a dinasyddion.⁷⁷ Y nod yw cydweithio i baratoi ar gyfer heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y dalaith yn y dyfodol, yn enwedig o ran ei phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae dros 900 o fusnesau, cymdeithasau a sefydliadau wedi cynnig syniadau ac atebion, ac mae dros 50,000 o ddinasyddion (tua 7% o'r boblogaeth) wedi cymryd rhan mewn prosiectau a mentrau ers ei sefydlu. Bob blwyddyn, mae'r cyhoedd yn cael gwahoddiad i gynnig strategaethau i fynd i'r afael â materion allweddol; mae 150 o'r 'arbrofion' yma wedi derbyn arian hyd yn hyn. Mae arbrofion yn profi atebion posibl ar gyfer problemau parhaus, gan gynnwys gofalu am yr henoed, symudedd, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a bwyd cynaliadwy. Yn ogystal â chefnogi deialog ar draws cymdeithas, mae 11 o leoliadau arbenigol ('canolfannau cyfeirio') lle mae'r llywodraeth daleithiol, prifysgolion, cyrff iechyd a gofal cymdeithasol, cymdeithas sifil a diwydiant yn cydweithio ar sectorau o bwys strategol, megis seiberddiogelwch neu iaith a diwylliant Gwlad y Basg.

Astudiaeth achos***Cydweithio ar addasu i'r hinsawdd yn Kokkedal (Denmarc)***

Yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth gan Denmarc a'r UE sy'n ei gwneud yn ofynnol i fwrdeistrefi leihau'r risg o lifogydd, mae bwrdeistrefi Denmarc wedi ceisio integreiddio rheoli dŵr storm â datblygu trefol mewn ffyrdd sy'n gwella ansawdd yr amgylchedd trefol i drigolion lleol.⁷⁸ Dioddefodd Kokkedal, tref o tua 10,000 o bobl, lifogydd sylweddol yn 2007 a 2010. Mewn ymateb, daeth prosiect addasu hinsawdd Kokkedal â chwe phartner prosiect at ei gilydd – llywodraeth bwrdeistref Fredensborg, cwmni cyfleustodau, dwy gymdeithas dai, sefydliad dyngarol ac ymddiriedolaeth elusennol – i ddatblygu'r dirwedd drefol er mwyn gwrthsefyll newid hinsawdd, gweithgareddau diwylliannol a hamdden a chydlyniant cymdeithasol.⁷⁹ Mynychodd trigolion lleol gyfarfodydd agored a chynnig sylwadau ar gynlluniau prosiectau.⁸⁰ Mae'r prosiect wedi lliniaru'r perygl o lifogydd yn llwyddiannus, wedi creu mannau chwarae i blant lleol ac wedi gwella ymdeimlad trigolion o ddiogelwch; mae hefyd wedi cyfrannu at ymdeimlad cyfranogwyr bod ganddynt rym go iawn yn y broses o wneud penderfyniadau, waeth beth fo'u cyfraniad ariannol i'r prosiect.

3.4 Refferenda a mentrau dinasyddion

Mae refferenda a mentrau dinasyddion yn cael eu hystyried yn agweddau uniongyrchol ar ddemocratiaeth, oherwydd eu bod yn caniatáu i ddinasyddion gyfranogi'n uniongyrchol at osod yr agenda wleidyddol a'r gwaith o wneud penderfyniadau.⁸¹ Yn ymarferol, mae gan y dulliau hyn swyddogaethau gwahanol iawn mewn gwahanol systemau gwleidyddol ac mae trafodaeth fanwl ar yr amrywiadau hyn y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn. Yn hytrach, rydym yn ystyried y ddau ddull yn eu tro, gyda'r nod o gyflwyno eu nodweddion allweddol a thynnu sylw at arloesi sy'n ceisio ategu *cyfranogiad* dinasyddion yn uniongyrchol gyda *chyd-drafodaeth* gan ddinasyddion fel elfennau o'r prosesau hyn.

3.4.a – Refferenda

O ran refferenda, nid ydynt ohonynt eu hunain yn adnodd newydd ar gyfer rhoi llais uniongyrchol i ddinasyddion mewn gwleidyddiaeth ddemocraidd. Fodd bynnag, mae amrywiaeth sylweddol o ran y graddau maen nhw wedi cael eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau gwleidyddol, y mathau o gwestiynau maen nhw wedi canolbwyntio arnynt, a'r rheolau ynghlwm wrth eu cynnal (e.e. a oes angen refferenda ai peidio, pwy sy'n eu sbarduno, ac a yw eu canlyniadau'n rhwymol o ran y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ai peidio).⁸²

Mae un feirniadaeth gyffredinol o refferenda – waeth sut maen nhw'n codi ac yn cael eu trefnu – sy'n ymwneud ag ansawdd y disgwrs gyhoeddus maen nhw'n ei sbarduno.⁸³ Mae'r ffaith eu bod fel arfer yn cael eu penderfynu gan farn fwyafrifol yn annog dull gwrthwynebus o ddadlau rhwng y rhai sydd o blaid ac yn erbyn y cynigion, gan arwain at bolareiddio'r ddadl wleidyddol fwy a mwy. Gall yr arddull hwn o drafodaeth gyhoeddus gynnwys camwybodaeth a thwyllwybodaeth ynghyd ag ymgysylltiad isel â natur gymhleth y mater dan sylw; o ganlyniad, mae'n bosibl na fydd y cyhoedd yn bwrw pleidleisiau gwybodus. Mae dynnameg o'r fath yn anodd ei gysoni â chyd-drafodaeth ac awydd i gefnogi pleidleiswyr i wneud dewisiadau gwybodus.

Mewn ymateb, mae datblygiadau arloesol diweddar wedi ceisio cyflwyno elfennau cyd-drafod ffurfiol i brosesau refferendwm. Mae'r cysyniad o 'refferendwm cydgyngorol' yn dychmygu ymgorffori cynulliadau neu reithgorau dinasyddion mewn proses o'r fath i baratoi neu graffu ar gynnig refferendwm.⁸⁴ Mae'r Irish Citizens' Assembly yn enghraifft o sut y gall cyd-drafod chwarae rhan baratoadol mewn perthynas â refferendwm (gweler yr Astudiaeth Achos isod). Mae mewnbyn cyd-drafod ar ffurf craffu i'w weld ym mhroses yr Adolygiad Menter Dinasyddion a ddatblygwyd yn Oregon (gweler yr Astudiaeth Achos yn adran 3.4.b isod). Defnyddiwyd y dull hwn yn y Ffindir yn 2019 cyn refferendwm ar uno dau gyngor lleol, er mwyn darparu gwybodaeth gytbwys ac ystyriol i bleidleiswyr ar y cynigion.⁸⁵

Astudiaeth achos**Yr Irish Citizens' Assembly yn rhoi sylw i erthyliad⁸⁶**

Roedd yr Irish Citizens' Assembly, a gynhaliwyd rhwng 2016 a 2018, yn cynnwys 100 o ddinasyddion a ddewiswyd ar hap. Bu'r cyfranogwyr yn ystyried amryw o faterion cyfansoddiadol, gan gynnwys diwygio'r gwaharddiad llwyr, fwy neu lai, ar erthyliad yng nghyfansoddiad Iwerddon. Argymhellodd y cynulliad y dylid llacio'r rheolau ar erthyliu ac, ar ôl ystyried y mater ymhellach gan bwyllgor arbennig o senedd Iwerddon, galwyd refferendwm ar 25 Mai 2018. Pleidleisiodd etholwyr o blaid diwygio cyfansoddiad Iwerddon i gael gwared ar y gwaharddiad ar erthyliad (gyda mwyafrif o 66.4% o blaid).

3.4.b – Mentrau dinasyddion

Mae'r term 'menter dinasyddion' yn cyfeirio at broses sy'n caniatáu i nifer o ddinasyddion godi mater ar yr agenda wleidyddol. Yn ymarferol, mae sawl ffurf i broses o'r fath. Er enghraifft, mae gwahanol ddibenion i fentrau o'r fath: argymhell refferenda, argymhell neu ymateb i bolisi neu ddeddfwriaeth newydd, neu adalw awdurdodau a llywodraethau cyn i'w tymor mewn grym ddod i ben.⁸⁷ Mae trothwyon gwahanol ar waith mewn gwahanol fannau i fenter fod yn gymwys: yn y Swistir, mae'n ofynnol i fenter gasglu 100,000 o lofnodion mewn 18 mis,⁸⁸ tra bod angen i Fenter Dinasyddion Ewrop (ECI) ennyn cefnogaeth o leiaf 1 miliwn o ddinasyddion yr UE (gydag isafswm lefel o gefnogaeth ar draws Aelod-wladwriaethau).⁸⁹ Mae rheolau gwahanol hefyd ynghylch beth sy'n digwydd i'r mentrau hyn pan fydd trothwyon cefnogaeth yn cael eu bodloni (e.e. a oes rhaid i awdurdodau gwleidyddol weithredu ai peidio), ac a yw unrhyw bleidlais sy'n deillio o hynny yn rhwymol ai peidio. Yng Nghaliffornia, er enghraifft, mae menter yn esgor ar bleidlais boblogaidd bron yn awtomatig ar ôl bodloni'r trothwy lofnodion (5% o'r pleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad diwethaf i ddewis llywodraethwr y dalaith). Mae menter hefyd yn dod yn ddeddf ar unwaith os yw'n derbyn cefnogaeth y mwyafrif yn y bleidlais.⁹⁰

Fel gyda'r syniad o refferendwm cydgyngorol uchod, mae diwygiadau arloesol i'r model menter gan ddinasyddion wedi ceisio hyrwyddo dadl gyhoeddus fwy gwybodus fel rhan o'r broses. Y model mwyaf adnabyddus yn hyn o beth yw'r model Adolygiad Menter Dinasyddion a ddatblygwyd yn Oregon yn yr Unol Daleithiau (gweler yr Astudiaeth Achos isod), ac sy'n ymgorffori rheithgor dinasyddion cyn y bleidlais gyhoeddus.⁹¹ Mae'r model hwn o fforwm cyd-drafod wedi'i ymgorffori mewn taleithiau eraill yr Unol Daleithiau (ee. Califfornia, Colorado ac Arizona) ac mewn manau eraill ledled y byd.⁹²

Astudiaeth achos**Model Adolygiad Menter Dinasyddion (CIR) Oregon (UDA)**

Sefydlwyd model CIR Oregon yn 2010, pan gynullwyd grŵp bach o bleidleiswyr cofrestredig a ddewiswyd ar hap i ystyried mentrau pleidleisio a oedd yn destun pleidlais mewn etholiad arfaethedig. Aeth cyfranogwyr ati i lunio 'datganiad dinasyddion' drafft yn nodi'r ffeithiau am y mentrau, a'u rhesymau dros eu cefnogi neu eu gwrthwynebu; fe'i dosbarthwyd i'r holl bleidleiswyr cyn y bleidlais i helpu i lywio eu dewis o ran pleidleisio. Ers hynny, mae'r model CIR wedi ymsefydlu fel rhan o'r gwaith o wneud penderfyniadau yn y dalaith: mae panel, sy'n cynnwys sampl gynrychioliadol o 18-24 o ddinasyddion, yn cyfarfod am bum diwrnod i ddysgu (gan arbenigwyr a sefydliadau sydd â buddiant) am fenter pleidleisio, gyda'u casgliadau yn ar gael i'r cyhoedd cyn i'r bleidlais gael ei chynnal.

3.5 Dulliau creadigol a chelfyddydol i hybu cyfranogiad a chyd-drafod rhwng dinasyddion

Mae'r arloesi democrataidd sydd wedi cael sylw yn yr adran hon hyd yma yn blaenoriaethu cyfranogi a chyd-drafod trwy ddulliau cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar siarad. Mae dulliau o'r fath – siarad, trafod, dadlau rhesymegol a rhesymu ffurfiol – yn blaenoriaethu rhai mathau o ddirnadaeth er mwyn dysgu am faterion a'u deall. Dadleuwyd hefyd, fodd bynnag, bod dirnadaeth affeithiol, greadigol a seiliedig ar synnwyr hefyd o gymorth i arloesi democrataidd. Mae angen cynnwys ymgysylltiad affeithiol gan fod materion gwleidyddol hefyd yn gallu ennyn ymateb mwy emosiynol a greddfod nad ydynt yn cael eu cwmpasu'n ddigonol (a bod modd mygu ymateb o'r fath hyd yn oed) trwy siarad.⁹³

Mae prosesau ac arferion creadigol a chelfyddydol wedi'u cynnig fel ffordd o fynd y tu hwnt i resymoldeb, ffeithiau a thrafodaeth i ymgysylltu mwy affeithiol â bywydau a phryderon pobl er mwyn gwella'r ddirnadaeth gyfannol o'r materion. Gall dulliau creadigol fynegi rhesymau sy'n anodd neu'n amhosibl i'w rhoi mewn geiriau, a chyfrannu at fynegiant rhesymau a fyddai fel arall heb gael sylw.⁹⁴ Yn hyn o beth, mae dulliau creadigol a chelfyddydol yn meddu ar y potensial i ganiatáu i safbwyntiau gwahanol ddod i'r amlwg o fewn prosesau cyfranogi a thrafod.

Mae'r rhain yn feysydd ymarfer sy'n dod i amlygrwydd ym maes arloesi democrataidd, ond mae sawl dull penodol sy'n awgrymu potensial dulliau creadigol a chelfyddydol ar gyfer gwella cyfranogiad dinasyddion (gweler yr Astudiaethau Achos isod). Mae arbrofi yn digwydd hefyd o ran cyflwyno creadigrwydd i arloesi democrataidd safonol: yn ddiweddar, trefnodd Mosaic Lab – sefydliad sy'n cynllunio a darparu cynulladau dinasyddion yn Awstralia – gynllun a oedd yn treialu arlunio fel un o'r gweithgareddau i ddatblygu crebwyll cyfranogwyr o'r materion a oedd yn cael eu trafod.⁹⁵

Astudiaeth achos

Prosiect (Un-) Stitching Gazes yn Antioquia (Colombia)

Yng nghyd-destun cytundeb heddwch 2016 rhwng llywodraeth Colombia a lluoedd arfog FARC, defnyddiodd y prosiect hwn frodwaith i feithrin deialog rhwng cyn-filwyr FARC a chymunedau yn Antioquia, lle'r oedden nhw'n cael eu lletya.⁹⁶ Roedd y gweithdai brodwaith yn creu lle i rannu profiadau a mynd i'r afael â naratifau amlycaf trais gwleidyddol. Cyfrannodd y sgwrs ddilynol at leddfu tensiynau cymunedol, cefnogi integreiddio a newid agweddau ac arferion creu heddwch.

3.5.a – Gweithdai dylunio dwys (charrettes)

Mae gweithdai dylunio dwys neu *charrette* (neu ddigwyddiadau dylunio dan arweiniad y gymuned mewn rhai cyd-destunau) yn sesiynau dylunio cyfranogol lle mae dinasyddion, cynllunwyr, dylunwyr ac eraill yn cydweithio ar weledigaeth ar gyfer datblygu ardal benodol. Mae gweithdai dylunio dwys yn aml yn canolbwyntio ar adfywio cymunedol, cynllunio trefol a chynllunio defnydd tir. Maen nhw'n darparu fforwm ar gyfer syniadau ac yn cynnig y fantais unigryw o roi adborth ar unwaith i'r dylunwyr; o ganlyniad, maen nhw'n caniatáu i bawb sy'n cymryd rhan leisio eu barn ar ddyluniad y cymunedau lle maen nhw'n byw.

Astudiaeth achos

'Make Your Mark' yn East Pollokshields (Yr Alban)

Yn 2016, ar ôl derbyn comisiwn gan Gyngor Cymuned Pollokshields, trefnodd tîm o benseiri a dylunwyr trefol ddigwyddiad dylunio dan arweiniad y gymuned i annog trigolion lleol i gyd-gynhyrchu cynllun strategol ar gyfer datblygu ardal East Pollokshields, Glasgow, i'r dyfodol.⁹⁷ Roedd 'Make Your Mark' yn cynnwys gweithdai â ffocws ac ymgynghoriadau ar y stryd, yn gwahodd dinasyddion i awgrymu syniadau i wella'r ardal, dan arweiniad fframwaith i asesu asedau ffisegol a chymdeithasol eu cymuned. Cyfunwyd awgrymiadau dinasyddion yn weledigaeth 5 pwynt ac uwchgynllun yn cwmpasu pynciau fel gwell mynediad at gyfleusterau, strydoedd diogel a deniadol, a mannau gwyrdd o safon. Drwy'r broses, nodwyd y posibilrwydd o droi hen lawnt fowlio a oedd wedi gweld dyddiau gwell yn ardal defnydd cymysg i fynd i'r afael ar frys â'r diffyg mannau gwyrdd hygyrch yn East Pollokshields. Cafodd y safle ei adfywio maes o law yn ardal drefol gyhoeddus a chymunedol.⁹⁸

3.5.b – Theatr ddeddfwriaethol

Gyda'i wreiddiau ym Mrasil yn y 1990au, mae theatr ddeddfwriaethol yn broses greadigol a chyfranogol o lunio polisiau lle mae cymunedau, sefydliadau a llunwyr polisi yn gweithio gyda'i gilydd i nodi, datblygu a chynyddu cefnogaeth ar gyfer deddfwriaeth newydd.⁹⁹ Drwy sioeau theatr rhyngweithiol, mae aelodau'r gymuned yn treialu atebion i sefyllfaoedd o orthrwm, ac yna'n gweithio gyda swyddogion i'w trawsnewid yn ddeddfau newydd neu newidiadau i ddeddfau sydd eisoes yn bodoli. Defnyddiwyd theatr ddeddfwriaethol ledled y byd i ddatblygu atebion creadigol ar gyfer materion fel digartrefedd, systemau cyfiawnder annheg a hawliau gweithwyr.

Astudiaeth achos

Cynllun atal digartrefedd Manceinion Fwyaf (Lloegr)

Yn 2020, cyd-gynhyrchwyd strategaeth pum mlynedd i atal digartrefedd yn y ddinas gan dîm digartrefedd Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf (GMCA), darparwyr gwasanaethau a phreswylwyr a oedd â phrofiad byw o dai heb sicrwydd trwy broses theatr ddeddfwriaethol.¹⁰⁰ Dewisodd y GMCA bynciau gan gynnwys anghenion cymhleth lluosog defnyddwyr gwasanaeth, cyllid a chomisiynu gwasanaethau, a phwyso ar ymarferydd celfyddydol i hwyluso ysgrifennu, ymarfer a pherfformio dramâu byr ochr yn ochr ag actorion a oedd â phrofiad byw o'r materion hyn. Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, cafodd y perfformiadau eu ffrydio ar-lein ar Zoom i gynulleidfa o staff cymorth rheng flaen, swyddogion GMCA, cynghorwyr lleol, eiriolwyr a chymdogion a oedd yn byrffyrto atebion i'r problemau systemig a gyflwynwyd ar y llwyfan.¹⁰¹ Cafodd dros ugain o awgrymiadau a gododd o'r perfformiadau, gweithdai a thrafodaethau dilynol eu cynnwys yn strategaeth atal digartrefedd derfynol Manceinion Fwyaf 2021-2026.¹⁰² Yn ogystal, hyfforddwyd pum cyfranogwr a fu ar un adeg yn ddigartref i fod yn hwyluswyr theatr ddeddfwriaethol, er mwyn magu hyder actorion yn eu sgiliau eiriolaeth a chynyddu gallu theatr ddeddfwriaethol i fynd i'r afael â materion polisi dilynol yn y ddinas.¹⁰³

3.6 Adnoddau digidol ac arloesi

Ledled y byd, mae'r broses o ddenu cyfranogwyr newydd ac o gefndiroedd mwy amrywiol i ymddiddori yn y gwaith o wneud penderfyniadau gwleidyddol yn dod yn haws ac yn fwy cynhwysol trwy ddefnyddio technolegau digidol.¹⁰⁴ Fel arfer, nid yw dulliau digidol ar wahân ac yn wahanol i'r mathau eraill o arloesi democrataidd a amlinellir uchod; yn hytrach, mae technolegau digidol wedi cael eu defnyddio'n eang fel rhan o gynulladau dinasyddion, cyllidebu cyfranogol, llywodraethiant cydweithredol a phrosesau creadigol, yn ogystal â mewn refferenda.¹⁰⁵ Mae adnoddau digidol hefyd wedi'u defnyddio gydag arloesi democrataidd, boed yn gyfranogi neu'n gyd-drafod, megis pleidleisio ar gyllidebau cyfranogol trwy neges destun ar raddfa ddinesig, a fforymau ar-lein fel rhan o broses drafod.¹⁰⁶ Mewn gwledydd sydd ag adnoddau digidol sefydledig ar gyfer ymgysylltu â'u dinasyddion (e.e. system bleidleisio ar-lein Estonia ar gyfer etholiadau cyffredinol neu fewnflwch 'Digital Post' Denmarc sy'n cysylltu dinasyddion yn uniongyrchol ag awdurdodau gwladwriaethol a dinesig), mae'r adnoddau e-lywodraethu hyn sy'n bodoli eisoes wedi cael eu haddasu i gefnogi dinasyddion i gyfranogi mewn arloesi democrataidd.¹⁰⁷ Mae adnoddau digidol hefyd yn galluogi ymgysylltu â dinasyddion yn draws-wladol, er enghraifft Transnational Citizens' Dialogues y Comisiwn Ewropeaidd.¹⁰⁸

Fodd bynnag, mae ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau a'r ymagwedd at ddefnyddio adnoddau digidol yn bwysicach i ganlyniadau llwyddiannus na dim ond dewis fformat digidol heb ddigon o ofal.¹⁰⁹ Er enghraifft, mae adnoddau digidol yn gallu cyrraedd demograffig iau na dulliau traddodiadol o ymgysylltu democrataidd, a gallant oresgyn rhwystrau i gyfranogiad ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.¹¹⁰ Maen nhw hefyd yn cynnig ffyrdd gwahanol o ddelweddu safbwyntiau gwahanol, yn aml gan dynnu sylw at amrywiaeth a chonsensws barn (gweler yr astudiaeth achos vTaiwan isod). Fodd bynnag, mae cyfranogiad digidol hefyd yn tueddu i ogwyddo tuag at ddinasyddion addysgedig, dinesig sydd eisoes yn weithgar yn wleidyddol.¹¹¹ Mae hyn, ynghyd â bylchau digidol parhaus mewn llawer o gyd-destunau, yn gofyn am gyfuniad o ddulliau ymgysylltu digidol ac all-lein i sicrhau hygyrchedd a chynhwysiant ehangach. Yn Ne Korea, er enghraifft, gall dinasyddion gyflwyno cynigion cyllidebu cyfranogol ar-lein neu trwy "dderbyniadau ymweld", lle mae swyddogion yn galw ac yn recordio fersiynau sain o gynigion gan sefydliadau ar gyfer grwpiau bregus.¹¹²

Astudiaeth achos**vTaiwan (Taiwan)**

Mae vTaiwan yn broses ymgynghori hybrid ar-lein ac wyneb yn wyneb sydd wedi'i nodi fel enghraifft flaenllaw o ddemocratiaeth ddigidol gydag ymgysylltiad ar raddfa fawr ar faterion polisi dadleuol.¹¹³ Mae vTaiwan yn cael ei drefnu gan y grŵp cymdeithas sifil g0v sy'n chwarae rhan allweddol fel hwylusydd annibynnol yn y broses ymgynghori. Mae pedwar cam i'r broses: y cam 'gwrthrychol', lle mae sefydliadau'n rhannu gwybodaeth wedi'i gwirio am bwnc ac yn cytuno ar ddiffiniadau; y cam 'myfyriol', lle mae dinasyddion yn mynegi barn ar y ffeithiau gerbron gan ddefnyddio adnodd arolwg ar-lein ar gyfer mapio barn ar raddfa fawr (Polis¹¹⁴); cam 'lladmeryddol', gyda chyfarfod wyneb yn wyneb, wedi'i ffrydio'n fyw, o unigolion a sefydliadau sydd â buddiant/sy'n cael eu heffeithio yn crynhoi barn cyfranogwyr ac yn llunio argymhellion; a cham 'penderfynu' lle mae'r argymhellion hyn yn cael eu cyfleu i swyddogion y llywodraeth.¹¹⁵ Mae dau ffactor yn hanfodol i weithrediad proses vTaiwan. Yn gyntaf, mae'r adnodd Polis yn canolbwyntio ar feysydd o gonsensws rhwng cyfranogwyr yn hytrach nag anghytuno, mae'n caniatáu i gyfranogwyr fynegi safbwyntiau gwahanol ar fater wrth i'r drafodaeth esblygu, ac yn annog datganiadau sy'n gallu ennyn cefnogaeth gan safbwyntiau amrywiol. Yn ail, er nad yw unrhyw argymhelliad yn wleidyddol rwymol, mae cefnogaeth gref i'r broses o du'r llywodraeth: gall dinasyddion gysylltu â phob gweinyddiaeth lywodraethol trwy'r fforwm vTaiwan, ac mae'n rhaid i'r gweinyddiaethau ymateb i geisiadau gwybodaeth am ddeddfwriaeth neu reoliadau sy'n bodoli eisoes o fewn saith diwrnod.¹¹⁶ Defnyddiwyd y broses am y tro cyntaf i gytuno ar reoleiddio'r ap teithio Uber; ers hynny, mae wedi cael ei defnyddio i drafod pynciau dadleuol eraill gan gynnwys gwerthu alcohol ar-lein a rheoleiddio technoleg ariannol.¹¹⁷

Astudiaeth achos**decidim.barcelona (Catalonia)**

Mae Decidim yn blatfform digidol agored ac am ddim ar gyfer cyfranogiad dinasyddion.¹¹⁸ Fe'i defnyddiwyd gan gyngor dinas Barcelona i gyd-gynllunio cynllun strategol y rhanbarth dinesig ar gyfer 2016-2019 ar y cyd â dinasyddion lleol.¹¹⁹ Roedd dinasyddion yn gallu cyflwyno a thrafod cynigion, ac olrhain eu cynigion ar-lein (trwy wahanol gamau megis gwiriadau technegol/dichonoldeb a chymeradwyaeth wleidyddol) hyd at eu cynnwys mewn cynllun strategol terfynol.¹²⁰ Ynghyd â'r broses ddigidol hon, trefnwyd 400 o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb gan y cyngor i leihau rhwystrau i gyfranogi, ac i hybu cynhwysiant y broses i'r eithaf.¹²¹ Ers 2020, mae'r platfform wedi cynnal proses cyllidebu cyfranogol hefyd.¹²² Mae hefyd wedi cael ei ddefnyddio gan dros 200 o sefydliadau mewn 30 o wahanol wledydd i gefnogi cyfranogi digidol gan ddinasyddion.¹²³

4 Arfer da wrth ddefnyddio arloesi democrataidd

Roedd Adran 3 yn canolbwyntio ar ddeddoliad o ddulliau sy'n hybu dinasyddion i gyd-drafod a chyfranogi mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd. Ynghyd â'r defnydd cynyddol o'r dulliau gwahanol hyn ledled y byd, gwelwyd mwy o ymdrechion – gan ysgolheigion ac ymarferwyr – i werthuso profiadau gwahanol, nodi eu cryfderau a'u gwendidau a datblygu canllawiau arfer da.

Mae hyn wedi arwain at gynnydd mawr yn yr astudiaethau o'r hyn sy'n gweithio (a'r hyn nad yw'n gweithio), a chanllawiau 'sut i' ar gyfer cynllunio a gweithredu'r gwahanol ddulliau hyn yn effeithiol ac yn llwyddiannus. Rydym yn rhestru rhai o'r adnoddau hyn yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn, gyda'r nod o hybu ymwybyddiaeth o arfer da wrth ymgymryd ag arloesi democrataidd. Mae'r adnoddau hyn yn ddefnyddiol ar gyfer archwilio a chymharu dulliau, rhagweld a datrys problemau a chynllunio a darparu arloesi democrataidd gwell.

Yn yr adran hon, rydym yn canolbwyntio ar ganfyddiadau allweddol sy'n deillio o'r gwaith hwn i nodi arfer da mewn perthynas â phum agwedd ar arloesi democrataidd: pwy sy'n rhan o'r broses; pa agwedd ar arloesi democrataidd i'w defnyddio; sut mae arloesi democrataidd yn cael ei gynllunio a'i hwyluso; i ba raddau y mae arloesi democrataidd yn cael effaith wirioneddol ar wleidyddiaeth ddemocrataidd; a sut i feithrin y capasiti i ymgymryd ag arloesi democrataidd.

4.1 Pwy sy'n rhan o'r broses?

Fel yr awgrymwyd gan yr enghreifftiau yn Adran 3, gall gwahanol fathau o bobl fod yn rhan o broses arloesi ddemocrataidd: grŵp eang o gefndiroedd amrywiol, sampl gynrychioliadol o ddinasyddion, cymuned benodol yn seiliedig ar ddaearyddiaeth neu nodweddion demograffig eraill, yn ogystal â grwpiau â buddiant neu grwpiau sy'n cael eu heffeithio.¹²⁴ Mae llawer o'r ddadl ynghylch arfer da wedi canolbwyntio ar natur cyfranogiad dinasyddion (yn hytrach na sefydliadau sydd â buddiant/sy'n cael eu heffeithio), a phwy yw'r bobl berthnasol i gymryd rhan mewn proses arloesi ddemocrataidd.

Mae tri ateb gwahanol i'r cwestiwn hwn yn ymarferol. Mae'r cyntaf yn blaenoriaethu'r dull cynulliad bach i'r cyhoedd o ddewis sampl o ddinasyddion sy'n cynrychioli'r gymuned neu'r gymdeithas ehangach mewn rhyw ffordd. Mae rhai yn dadlau bod y dull hwn yn rhagori'n ddemocrataidd,¹²⁵ ac mai dyma'r dull mwyaf radical a democrataidd gadarn¹²⁶ o blith y gwahanol ffurfiau ar arloesi democrataidd. Mae barn o'r fath yn sail i eiriolaeth gynyddol cynulliadau dinasyddion (neu amrywiadau, gan gynnwys rheithgorau neu ddeialogau dinasyddion) fel mecanwaith arbennig o effeithiol ar gyfer adfywio democrataidd.¹²⁷ Fel yr awgrymwyd uchod, y gwerth sy'n cael ei briodoli i ddull o'r fath yw'r cyfle y mae'n ei roi i archwilio sut y byddai'r cyhoedd ehangach yn delio â mater pe bai gan bobl yr amser a'r adnoddau i ddysgu amdano a'i ystyried er mwyn dod i benderfyniad gwybodus.¹²⁸

Fodd bynnag, mae heriau ynghlwm wrth y model hwn o gynnwys dinasyddion. Yn rhinwedd ei ddiffiniad, dim ond nifer fach o ddinasyddion sy'n cymryd rhan, sy'n golygu nad yw'r mwyafrif helaeth o ddinasyddion yn cael dweud eu dweud ar y mater sy'n cael ei ystyried. Mae meintiau sampl bach hefyd yn cyfyngu ar hyd a lled y meini prawf sydd ar waith i ddewis cyfranogwyr; mae'n anochel felly na fydd pob grŵp mewn cymdeithas (na'u croestoriadau) yn cael eu cynrychioli ar gynulladau bach i'r cyhoedd.¹²⁹ Mae tystiolaeth hefyd yn dod i'r fei y gallai anghydraddoldebau strwythurol atal grwpiau penodol rhag cael eu recriwtio neu gyfranogi mewn cynulladau bach i'r cyhoedd, gan ogwyddo'r broses tuag at aelodau mwy breintiedig cymdeithas.¹³⁰ Mae dadansoddiad o broffil cyfranogwr confensiwn cyfansoddiad Iwerddon yn tanlinellu'r her: nid oedd pobl ddigartref, dinasyddion Gwyddelig newydd nac aelodau o'r gymuned deithiol ymhlith y dinasyddion a gyfranogodd.¹³¹

Mae ail ymateb i'r cwestiwn 'pwy sy'n cyfranogi' yn rhagweld cyfranogiad agored gan bob dinesydd. Mewn egwyddor, dyma'r math mwyaf cynhwysol o gynnwys dinasyddion gan nad oes cyfyngiadau ffurfiol ar gyfranogiad.¹³² Mae eiriolwyr cyllidebu cyfranogol a dulliau creadigol a chelfyddydol yn ystyried cyfranogiad agored yn arbennig o effeithiol wrth ymgysylltu â chyfranogwyr sy'n aml yn cael eu gwthio i'r cyrion neu eu heithrio gan brosesau democrataidd traddodiadol (e.e. pobl ifanc, grwpiau incwm isel a'r rhai sydd â lefelau is o addysg ffurfiol).¹³³ Dadleuwyd hefyd fod cyfranogiad ehangach yn arbennig o bwysig i ddilysu rhai mathau o benderfyniadau, e.e. newidiadau cyfansoddiadol sy'n newid 'rheolau'r gêm' y mae pob dinesydd mewn system wleidyddol yn ddarostyngedig iddyn nhw.¹³⁴

Fodd bynnag, mae'r dull hwn o gynnwys dinasyddion hefyd yn peri heriau. Er mai anaml y mae cyfranogiad llawn mewn democratiaeth (e.e. mewn etholiadau neu refferenda) yn cael ei gyflawni, mae cyfraddau cyfranogiad ar gyfer arloesi democrataidd yn aml hyd yn oed yn is (e.e. tua 7% ar gyfer prosesau cyllidebu cyfranogol ym Mharis, sy'n cael ei ystyried yn dipyn o gyflawniad¹³⁵). Gall hefyd ddenu cyfranogwyr hunanddetholedig o blith rhai grwpiau demograffig-gymdeithasol neu nodweddion agwedd, a chael trafferth yn cyrraedd croestoriad o'r boblogaeth.¹³⁶ Gall hynny arwain at ddiffygion o ran cynhwysiant ac amrywiaeth, sydd yn ei dro yn creu sylfaen wael ar gyfer cyd-drafod effeithiol. Mae hi hefyd yn anoddach cyflawni gwaith cyd-drafod wrth i nifer y cyfranogwyr gynyddu, ac mae gofyn am gyfaddawd rhwng cyfranogi a chyd-drafod: wrth i'r cyfranogi gynyddu, bydd ansawdd y cyd-drafod yn gostwng.¹³⁷

Un casgliad i'w lunio o'r gwaith hwn yw bod gwahanol fathau o arloesi democrataidd yn debygol o fod yn ofynnol i gyflawni gwahanol nodau cyfranogi neu drafod.¹³⁸ Fodd bynnag, mae trydydd dull yn ceisio pontio'r bwch rhwng y ddau gyntaf trwy gynllunio prosesau sy'n cyfuno gwahanol ddulliau o gynnwys dinasyddion ar wahanol gamau.¹³⁹ Enghraifft o hynny yw'r model 'refferendwm cydgynghorol' a ddisgrifir uchod, sy'n cynnwys cynulliad bach i'r cyhoedd fel rhan o broses refferendwm. Mae dull hybrid o'r fath hefyd wedi cael ei ddefnyddio gan gynllunwyr cynulladau dinasyddion, sydd wedi gwahodd mewnbyn cyhoeddus ehangach yn y cam cyn cynnull i nodi blaenoriaethau bras (e.e. cynulliad "We the Citizens" yn Iwerddon¹⁴⁰) neu ar ganol y broses gynnull i brofi argymhellion sy'n dod i'r fei yn y cyfarfodydd cyhoeddus (fel y cynulliad y dinasyddion ar ddefnydd cynaliadwy yn Nenmarc¹⁴¹). Yn yr ystyr ehangach, mae modd cynllunio prosesau i ymgorffori gwahanol fathau o arloesi democrataidd ar wahanol gamau, gan alluogi cyfranogiad dinasyddion mewn gwahanol ffyrdd at wahanol ddibenion. Er enghraifft, mae dadl wedi'i chyflwyno dros gyfuno cynulladau dinasyddion â chyllidebu cyfranogol,¹⁴² tra bod confensiwn cyfansoddiadol Gwlad yr Iâ yn cynnwys fforwm cenedlaethol wedi'i ddewis ar hap, cynulliad cyfansoddiadol wedi'i ethol yn uniongyrchol, a phroses ar gyfer cynigion 'cyfrannu torfol' trwy blatfformau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.¹⁴³

4.2 Pa agwedd ar arloesi democrataidd i'w defnyddio?

Mae cynllunio prosesau sy'n cyfuno gwahanol fathau o arloesi democrataidd hefyd yn lliniaru yn erbyn tueddiad gan rai yn y maes i dybio bod rhai dulliau yn well na'i gilydd – mai eu dull nhw o arloesi democrataidd yw'r unig ddull.¹⁴⁴ Mae'r agwedd hon yn amlwg wrth hyrwyddo'r don o gyd-drafod¹⁴⁵ y cyfeiriwyd ati uchod, a'r nifer o gynulliadau bach i'r cyhoedd (yn enwedig cynulliadau dinasyddion) sy'n cael eu sefydlu ledled y byd. Mae Lerner wedi dadlau, fodd bynnag, fod tonnau yn arwain at feddylfryd grŵp, yn achosi cystadleuaeth ddi-fudd a'u bod yn anghynaliadwy.¹⁴⁶ Mae hyn yn arwain at anwybyddu mathau eraill o gyfranogi a thrafod, ac yn mygu arloesi.¹⁴⁷ Mae hefyd yn diystyru gwerth plethu dulliau gwahanol o gyfranogi a chyd-drafod gan ddinasyddion fel rhan o ecosystem democrataidd gyfannol a mwy cytbwys.

O'r safbwynt olaf hwn, mae diddordeb cynyddol ar lawr gwlad mewn buddsoddi mewn amrywiaeth o ddulliau cyfranogi, a phrif ffrydio cyfranogiad y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth ac ar raddfeydd gwahanol o wneud penderfyniadau, yn wleidyddol ac yn gymdeithasol. Mae dull systemig o'r fath yn cefnogi diwylliant gwahanol o gyfranogi a chyd-drafod gan ddinasyddion, lle mae arloesi democrataidd yn cael ei ymgorffori a'i integreiddio i strwythurau a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n bodoli eisoes. Mae hefyd yn annog strategaethau mwy integredig ar gyfer cyfranogiad dinasyddion yn y gwaith o wneud penderfyniadau trwy ddarparu ymbarél dros fentrau cyfredol ond gwasgaredig.¹⁴⁸ Mae creu a datblygu diwylliant o arloesi democrataidd hefyd yn gallu cynnig sylfaen i fentrau newydd a'u cefnogi dros amser.¹⁴⁹ Er enghraifft, mae poblogrwydd sydyn a gwreiddio platform digidol decidim.barcelona (gweler uchod) wedi ei briodoli i draddodiadau cryf o gyd-gynhyrchu gan ddinasyddion a democratiaeth uniongyrchol trwy refferenda a phrofiadau cyllidebu cyfranogol.¹⁵⁰

4.3 Sut y dylid hwyluso arloesi democrataidd?

Waeth beth fo'r math penodol o arloesi democrataidd, un thema sy'n dod i'r amlwg wrth werthuso prosiect yw bod cynllunio a hwyluso da yn hanfodol i'w llwyddiant.¹⁵¹ Mae'r ddwy swyddogaeth hyn yn aml yn mynd law yn llaw: rôl yr hwylusydd felly yw ei gwneud hi'n hawdd i bawb gyfranogi'n gyfartal a chynhyrchiol trwy gynllunio manau sy'n galluogi ac yn cyfyngu ar wahanol fathau o ryngweithio.¹⁵² Mae hwyluswyr yn aml yn cydweithio â noddwyr llywodraeth/cymdeithas sifil i ddiffinio pwrpas yr ymgysylltu, sefydlu lefel y dylanwad fydd gan gyfranogwyr a nodi'r deilliannau y mae disgwyl i ddinasyddion eu cynhyrchu. Mae'r gwaith caib a rhaw hwn yn sicrhau bod y gweithgareddau yn cael eu cynllunio'n briodol i gyflawni'r nodau hyn. O'r safbwynt hwn, mae hwyluswyr wedi cael eu disgrifio fel "gweithwyr hanfodol" arloesi democrataidd.¹⁵³

Fodd bynnag, er bod ansawdd cyfranogi a chyd-drafod yn aml yn dibynnu ar gynllunio a hwyluso gofalus, mae hon yn agwedd sy'n aml yn cael ei diystyru mewn adnoddau sy'n eiriol dros arloesi democrataidd penodol ac yn darparu arweiniad yn ei gylch. Mae'n dechrau dod yn amlwg fod cynllunio a hwyluso gwahanol fathau o gyfranogi a chyd-drafod gan ddinasyddion yn gofyn am sgiliau gwahanol, ond fel arfer mae angen mwy o gynllunio yn gyffredinol nag y mae'r anghyfarwydd yn ei dybio. Gall hyn hefyd greu heriau o ran gallu a phrofiad unigolion a sefydliadau i ddarparu hwyluso priodol ac o ansawdd uchel. Gyda hynny mewn golwg, mae'r Atodiad yn rhestru rhai adnoddau cymorth defnyddiol ar gyfer hwyluswyr gweithgareddau cyfranogi a chyd-drafod.

4.4 I ba raddau y mae arloesi democrataidd yn effeithio ar wleidyddiaeth ddemocrataidd?

Mae tystiolaeth gynyddol bod arloesi democrataidd yn creu'r manau democrataidd i ddinasyddion ymgynnull, gwrandao ar ei gilydd a deall ei gilydd, mynd i'r afael â chymhlethdod a dod o hyd i dir cyffredin ar gyfer creu atebion. Fodd bynnag, mae mentrau democrataidd yn aml yn cael eu beirniadu am fod yn fentrau untro ac ynysig sy'n aml yn ddibynnol ar ewyllys wleidyddol; heb ewyllys wleidyddol, mae deilliannau cyfranogi a chyd-drafod gan ddinasyddion yn aml yn cael eu hanwybyddu. O ganlyniad, mae'r ymateb dilynol i syniadau ac argymhellion dinasyddion yn brin, ac ychydig o effaith maen nhw'n eu cael ar wleidyddiaeth a llunio polisiau.¹⁵⁴ Mae hyn yn anochel yn porthi diffyg ymddiriedaeth ac yn tanseilio ymdeimlad cadarnhaol dinasyddion o alluogedd a diben cyfunol sy'n tarddu o gymryd rhan mewn arloesi democrataidd.¹⁵⁵

Er mwyn mynd i'r afael â'r her hon, gwelwyd mwy o ymdrechion ledled y byd i sefydlu a gwreiddio arloesi democrataidd fel rhan annatod a pharhaol o'r drefn ddemocrataidd. Mae hyn yn golygu creu cyfleoedd rheolaidd i bobl gymryd rhan mewn arloesi democrataidd, a sefydlu strwythurau a phrosesau ffurfiol sy'n cysylltu'r rhain â systemau a sefydliadau gwleidyddol. Mae llawer o fanteision o wneud hyn: mae'n graddio'r gallu i wneud penderfyniadau gwell, mae'n rhoi cyfle i'r cyhoedd a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddod i ymddiried yn ei gilydd dros amser, mae'n lleihau'r costau a'r adnoddau sydd eu hangen trwy beidio â gorfod dechrau o'r dechrau bob tro ac mae'n cryfhau nerth democratiaeth trwy gynyddu cyfraniad cadarnhaol cyfranogi a chyd-drafod gan ddinasyddion i ddemocratiaeth.¹⁵⁶

Mae modelau gwahanol ar gyfer sefydliadu arloesi democrataidd wedi'u datblygu mewn gwahanol fannau; rydym yn crynhoi rhai ohonynt isod. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn hollgynhwysol. Yn hytrach, maen nhw'n rhoi syniad o'r posibiladau ar gyfer cysylltu arloesi democrataidd i wahanol *rannau* a *lefelau* y system lywodraethu yn barhaus:

- **Cynulliad dinasyddion parhaol** (Ostbelgien – gweler yr Astudiaeth Achos uchod – a chynulliad Paris¹⁵⁷) – mae'n dewis materion i'w hystyried yn fanwl gan reithgorau dinasyddion llai (ac ym Mharis, mae'n dewis themâu ar gyfer cyllidebu cyfranogol); mae'n ofynnol i'r senedd berthnasol ymateb i argymhellion o fewn amserlen benodol.
- **Pwyllgorau cyd-drafod dinasyddion a gwleidyddion** (senedd ranbarthol ym Mrwswel¹⁵⁸) – mae'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn i ystyried pwnc a awgrymwyd gan gynrychiolwyr etholedig a dinasyddion; mae'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r senedd, sy'n gorfod ymateb o fewn amserlen benodol.
- **Proses Adolygiad Menter Dinasyddion** (Oregon – gweler yr Astudiaeth Achos uchod) – yn cysylltu mesur pleidleisio arfaethedig rheithgor dinasyddion.
- **PANELI ymgynghorol dinasyddion sefydlog** (Toronto¹⁵⁹) – panel dinasyddion cynrychioliadol am gyfnod o ddwy flynedd, i gynghori cyngor y ddinas ar faterion cynllunio a thrafnidiaeth amrywiol; cylch gwaith ehangach na phaneli untro a dysgu parhaus/cyd-drafod dros amser.
- **Prosesau Cyllidebu Cyfranogol parhaol** (Warsaw – gweler yr Astudiaeth Achos uchod – a chynulliad Paris) – proses ffurfiol sy'n pennu cyllideb a ddyrannwyd gan gyngor y ddinas, proses ar gyfer cyfranogi gan ddinasyddion a phleidleisio; a rhwymedigaethau i'r cyngor o ran gweithredu ac adrodd.

Er bod diddordeb cynyddol yn y modelau gwahanol hyn ar gyfer sefydliadu arloesi democrataidd, mae gwaith diweddar hefyd wedi rhybuddio rhag canolbwyntio ar gynllunio sefydliadol penodol yn unig. Mae newid agweddu ac ymddygiad hefyd yn hanfodol os yw'r dulliau hyn i gael eu gwreiddio'n iawn mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd.¹⁶⁰ Mae'r gwaith hwn yn cyfeirio sylw at y cyfranogwyr yn, ac o amgylch, y manau ble mae penderfyniadau yn cael eu gwneud – gwleidyddion, gweision sifil, ymarferwyr ac ymgyrchwyr – a sut y gallant gefnogi neu danseilio potensial arloesi democrataidd i gael effaith ystyrlon ar wleidyddiaeth.

4.5 Sut y mae creu capasiti ar gyfer meithrin arloesi democrataidd?

Gan adeiladu ar y pwynt olaf hwn, mae sicrhau ecosystemau democratiaeth iach yn gofyn am fuddsoddi mewn hyfforddiant a chynyddu capasiti i alluogi cyfranogwyr i agor gwleidyddiaeth ddemocrataidd allan mewn ffordd ystyrlon i ddoethineb dorfol dinasyddion trwy arloesi democrataidd.¹⁶¹ Mae gwahanol fentrau wedi ceisio gwneud yn union hynny, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi gwleidyddion a gweision sifil i ddeall a defnyddio gwahanol fathau o arloesi democrataidd.¹⁶² Mae buddsoddi mewn hyfforddiant a seilwaith gyffredin yn elfen allweddol o'r gwaith hwn; mae hyn yn cynnwys hyfforddiant untro yn ogystal â dysgu parhaus a mynediad at adnoddau, deunyddiau a chymorth arall sy'n creu arbedion maint i dorri costau.¹⁶³

Mae'r ffocws hwn ar sicrhau cefnogaeth gwleidyddion a gweision sifil yn arbennig o bwysig gan eu bod yn aml yn chwarae rhan allweddol wrth wneud i arloesi democrataidd ddigwydd. Maen nhw fel arfer yn comisiynu ac yn darparu adnoddau i'r gweithgareddau hyn, ac mae graddau effaith arloesi

democrataidd yn dibynnu ar eu parodrwydd i groesawu dinasyddion i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil diweddar wedi amlygu'r rhwystrau wrth geisio sicrhau cefnogaeth gwleidyddion a gweision sifil.¹⁶⁴ Gall dryswch godi ynghylch y term 'arloesi democrataidd', gan feithrin camsyniadau am yr hyn y mae'n ei olygu a pham mae'r dulliau hyn yn fuddiol. At hynny, er bod cydnabyddiaeth o'r angen i newid sut rydym yn ymgysylltu â dinasyddion, mae ymdeimlad yn aml nad yw gwneud pethau'n wahanol yn fater brys.

Datgelodd y gwaith ymchwil hefyd, fodd bynnag, fod mwy o awydd am arloesi democrataidd pan fydd yn cael ei gyflwyno mewn termau llai haniaethol, ac yn fwy fel adnoddau ymarferol ar gyfer mynd i'r afael â heriau polisi penodol. Mae felly'n hanfodol i fod yn glir am werth ychwanegol neilltuol y dulliau hyn.¹⁶⁵ O'r safbwynt hwn, dylai adeiladu cefnogaeth i arloesi democrataidd ddechrau drwy ddeall yr heriau penodol y mae gwleidyddion a gweision sifil yn eu hwynebu, a'u cynnwys wrth drafod arloesi democrataidd fel ffordd wahanol o archwilio datrysiadau. Fel hyn, mae modd i strategaethau ar gyfer meithrin arloesi democrataidd gael eu seilio yn y cyd-destunau gwleidyddol a chymdeithasol penodol lle maen nhw'n cael eu datblygu, ac ymateb iddynt, a gall gwleidyddion a gweision sifil berchnogi naratif yr arloesi democrataidd perthnasol.¹⁶⁶

Mae'r Citizens' White Paper¹⁶⁷ a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Demos, yn enghraifft ardderchog o sut i gydweithio â gwleidyddion a gweision sifil – ynghyd ag ymarferwyr, academyddion a dinasyddion – i gyd-gynhyrchu cynigion ar gyfer ymgorffori cyfranogiad dinasyddion. Roedd y broses yn cynnwys cyfweiliadau gyda gwleidyddion a gweision sifil y DU i nodi problemau gyda'r broses bresennol o wneud penderfyniadau; gweithdai cyd-drafod gyda sampl gynrychioliadol o'r cyhoedd; a sesiwn frys o gynllunio polisi gyda gweision sifil, academyddion ac ymarferwyr i nodi ffyrdd y gallai'r llywodraeth ymgorffori cyfranogiad y cyhoedd wrth lunio polisiau. Y canlyniad yw map trywydd at newid, un ymarferol sydd wedi'i gostio, sy'n cynnwys camau gweithredu tymor byr a hirdymor penodol a fyddai'n galluogi dinasyddion y DU i gyfranogi yn y penderfyniadau polisi sy'n effeithio ar eu bywydau.

5 Meithrin arloesi democrataidd yng Nghymru: cryfderau, heriau ac argymhellion

Yn rhan olaf yr adroddiad, rydym yn pwysu ar y drafodaeth flaenorol i ystyried sut i feithrin arloesi democrataidd yng Nghymru. Mae rhywfaint o brofiad o'r dulliau hyn eisoes, ac mae hynny'n cael ei grynhai yn yr adran nesaf. Mae hyn yn cynnig sylfaen dda i ddatblygu arni. Fodd bynnag, mae nifer o heriau i'w goresgyn hefyd. Rydym yn argymhell cyfres o gamau gweithredu a allai alluogi Cymru i wireddu ei photensial i arloesi o ran democratiaeth.

5.1 Cryfderau i greu sylfaen: Profiad Cymru o arloesi democrataidd

Hyd yma, gwelwyd ychydig o ddefnydd o arloesi democrataidd yng Nghymru. Mae hynny wedi digwydd ar sawl ffurf, wedi gweithredu ar raddfeydd cenedlaethol a lleol ac wedi canolbwyntio ar wahanol faterion polisi. Er enghraifft, mae cynullïadau dinasyddion wedi archwilio rôl dinasyddion yng ngwaith Cynullïad Cenedlaethol Cymru¹⁶⁸ ac effeithiau newid hinsawdd ar dai, trafndiaeth a systemau bwyd lleol.¹⁶⁹ Mae gwahanol brosiectau hefyd wedi defnyddio rheithgorau dinasyddion i archwilio rôl y cyfryngau yng Nghymru,¹⁷⁰ darparu gofal cymdeithasol¹⁷¹ a blaenoriaethau o ran newid cyfansoddiadol.¹⁷²

Mae rhywfaint o brofiad hefyd o gyllidebu cyfranogol yng Nghymru, gyda'r dull hwn wedi'i normaleiddio fel proses o ddyrannu adnoddau i brosiectau llesiant cymunedol yng Nghasnewydd.¹⁷³ Mae cydgynhyrchu wedi datblygu'n dda fel ffordd gydweithredol o weithio wrth ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus,¹⁷⁴ ac mae rhai arferion creadigol arloesol wedi'u treialu mewn gwahanol gymunedau fel ffordd o greu gofodau newydd ar gyfer deialog a chyd-drafod.¹⁷⁵ Mae yna hefyd nifer o brosiectau cymunedol wedi'u cyd-greu sy'n esgor ar fanteision cymdeithasol a democrataidd cadarnhaol i bobl mewn cymunedau ledled Cymru.¹⁷⁶

At hynny, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn darparu fframwaith clir ar gyfer cofleidio arloesi democrataidd ymhellach. Yn benodol, mae ymrwymiad y Ddeddf i 'gynnwys' a 'chydweithio' fel ffyrdd o weithio¹⁷⁷ yn darparu ffocws ar gyfer ymgysylltu cynnar, parhaus ac ystyrllon â dinasyddion fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol ac ar draws sectorau polisi. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth i gynghori Llywodraeth Cymru a phartneriaid ar ehangu'r defnydd o arloesi democrataidd ac i wella ymgysylltiad dinesig mewn bywyd cyhoeddus.¹⁷⁸ Mae cynigion diwygio'r Senedd, sydd i'w gweithredu yn etholiadau nesaf y Senedd yn 2026, hefyd yn cynnig cyfle i feddwl y tu hwnt i newidiadau i ddemocratiaeth etholiadol yng Nghymru: sut y gallai dinasyddion ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r broses seneddol a'r gwaith o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau?

5.2 Heriau i'w goresgyn

Mae sylfaen gref ar gael i Gymru allu seilio democratiaeth fwy arloesol arni felly. Fodd bynnag, mae gwneud hynny hefyd yn gofyn am oresgyn nifer o heriau. Ar y cyfan, mae enghreifftiau o arloesi democrataidd yng Nghymru yn fentrau unswydd ac untro, ac nid oes tystiolaeth glir bob amser o'r hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'w hallbynnau a'u hargymhellion. At hynny, prin yw'r gwerthuso systematig o'r rhwystrau a'r cyfleoedd i ymgymryd â mentrau o'r fath. Yn aml, nid yw dysgu o un prosiect yn cael ei rannu'n ehangach fel ffordd o feithrin gwybodaeth a chapasiti, ac i lywio gweithgareddau yn y dyfodol.¹⁷⁹ Mae hyn yn arwydd o wendid yn y gofod arloesi democrataidd yng Nghymru: ar hyn o bryd, nid oes fforwm na rhwydwaith sy'n dwyn ynghyd y rhai sy'n ymddiddori mewn arloesi democrataidd a'r rhai sydd â phrofiad yn y maes er mwyn harneisio eu doethineb cyfunol i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol.

Mae potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i drawsnewid arferion cyfranogi dinasyddion yng Nghymru yn sylfaenol eto i'w wireddu. Un broblem yma yw nad oes "data cymharol ar gael eto ar sut mae cyrff cyhoeddus wedi rhoi'r egwyddor hon ar waith yn ymarferol".¹⁸⁰ Mae hyn yn nodweddiadol o her ehangach o ran gweithredu'r Ddeddf, gyda chydabyddiaeth nad yw'n "cael ei rhoi ar waith yn ddigon cyflym na chynhwysfawr".¹⁸¹ Gwnaed cynigion blaenorol i gronni profiadau ac arbenigedd gan ystod o sefydliadau i lywio a chynllunio rhaglen o ymchwil, datblygu a meithrin capasiti mewn perthynas ag arloesi democrataidd.¹⁸² Hyd yn hyn, fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at ddatblygu unrhyw fentrau pendant.

5.3 Argymhellion ar gyfer meithrin arloesi democrataidd yng Nghymru

Gan ystyried profiadau o arloesi democrataidd mewn mannau eraill ledled y byd, ac ymdrechion Cymru hyd yma i roi cynnig ar wahanol ddulliau o gyfranogi a chyd-drafod gan ddinasyddion, rydym yn argymhell tri cham gweithredu a allai helpu i feithrin democratiaeth fwy arloesol yng Nghymru.

Mae'r Grŵp Cyngori ar Arloesi Democratiaeth newydd mewn sefyllfa dda i gwmpasu a chydlynu'r camau gweithredu hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i hynny gael ei gefnogi gan bartneriaid allweddol hefyd – Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill yn y gymdeithas sifil – sy'n deall yn well sut i gyrraedd ac ymgysylltu ag etholaethau gwahanol. Rhaid bod rôl hefyd i ddinasyddion eu hunain gyfrannu at gynllunio unrhyw arloesi democrataidd sydd â'r bwriad o'u grymuso i gael llais cryfach yn y broses o wneud penderfyniadau.

- 1. Mae angen ymdrech fwy cadarn a chydlynol i hybu ymwybyddiaeth o beth yw arloesi democrataidd, a pham y gall helpu i fynd i'r afael â'r heriau i ddemocratiaeth Cymru.**

Dylai'r gwaith hwn sefydlu terminoleg gyffredin, a chanolbwyntio ar werth ychwanegol ymarferol arloesi democrataidd wrth fynd i'r afael â materion cymhleth a allai fod yn gynhennus ac ailadeiladu ymddiriedaeth dinasyddion mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd. Mae hybu ymwybyddiaeth o'r effeithiau cadarnhaol a hirdymor hyn yn hanfodol er mwyn goresgyn unrhyw wrthwynebiad i roi cynnig ar rywbeth gwahanol, a sicrhau derbyniad a hyfywedd hirdymor arloesi democrataidd.
- 2. Dylai gwaith ymchwil pellach fapio a gwerthuso'r arloesi democrataidd sydd yng Nghymru eisoes, er mwyn deall cryfderau presennol yn well a nodi rhwystrau i ehangu ac ymestyn y dulliau hyn.**

Mae hyn yn gofyn am weithio gyda ac ar draws prosiectau, sefydliadau a haenau llywodraeth presennol i greu darlun cliriach o enghreifftiau a phrofiadau o ddulliau arloesol o ymdrin â democratiaeth. Mae hefyd yn waith angenrheidiol ar gyfer deall y cyfleoedd a'r heriau penodol sy'n codi yng nghyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol Cymru (a gwahaniaethau o fewn Cymru, ar draws lefelau llywodraeth a meysydd polisi). Mae gwerth amlwg i ddysgu o brofiadau mewn mannau eraill, ond mae'n rhaid gwneud defnydd o'r dysgu hwn mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr, ac yn gweithio, i Gymru hefyd. Mae hyn yn waith caib a rhaw angenrheidiol ar gyfer creu cymuned ymarfer arloesi democrataidd sy'n benodol i Gymru, ac sy'n gallu cefnogi gweithgareddau dilynol, gyda'r nod o ehangu ac ymgorffori'r dulliau hyn fel nodwedd graidd o ddemocratiaeth Cymru.
- 3. Dylid ystyried proses gynllunio systematig a chydweithredol sy'n dwyn ynghyd unigolion a sefydliadau allweddol, i gyd-gynhyrchu cynigion penodol ar gyfer meithrin arloesi democrataidd parhaus ac effeithiol yng Nghymru.**

Ysbrydolwyd y cam hwn gan yr arfer da a nodwyd uchod, lle mae egwyddorion cyfranogi a chyd-drafod yn cael eu cymhwyso i broses i ddatblygu cynigion penodol ar gyfer cynnwys a grymuso dinasyddion mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd. Dylai hyn gynnwys gwleidyddion a gweision sifil, ymarferwyr ac academyddion, yn ogystal â dinasyddion eu hunain. Gall proses o'r fath ddangos a meithrin hyder yn y mathau o ddulliau rydym yn eiriol drostynt yn fwy cyffredinol: cymysgedd o ddulliau o gyfranogi a chyd-drafod, wedi'u cynllunio a'u hwyluso'n ofalus, i gynhyrchu cynigion ar gyfer meithrin gwybodaeth am ddemocratiaeth Cymru a'i gallu i arloesi mewn ffordd parhaus ac effeithiol.

Atodiad: Cronfeydd Data a Chanllawiau ar Arloesi Democrataidd

Yma, rydym yn darparu detholiad o adnoddau i'r rhai sydd â diddordeb mewn archwilio arloesi democrataidd ymhellach. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr o bell ffordd; yn hytrach, rydym yn canolbwyntio (gydag ychydig eithriadau) ar adnoddau sydd ar gael yn agored ac wedi'u llunio gan ymarferwyr a melinau trafod gyda phrofiad uniongyrchol o gynllunio, gweithredu a gwerthuso arloesi democrataidd.

1. Cronfeydd data arloesi democrataidd

Involve:

[Knowledge base](#)

[Methods](#)

LATINNO:

[Innovations for Democracy in Latin America](#)

Participedia:

[Database of public participation and democratic innovations](#)

OECD:

[Deliberative Democracy Database](#)

Utrecht University:

[Collaborative Governance Case Database](#)

2. Canllawiau ac arferion da ar gyfer trefnu datblygiadau arloesi democrataidd

Andreea-Loredana Tudorache:

[Using Theatre to Make Politics: Legislative Theatre Manual](#)

Collaboration for Impact:

[Collaborative Governance: An Introductory Practice Guide](#)

DemocracyNext:

[Assembling an Assembly Guide](#)

Democratic Society:

[Guide to Deliberation: Participatory Budgeting](#)

FIDE:

[Resources on Deliberative Democracy and Citizens' Assemblies](#)

Glasgow Disability Alliance:

[Budgeting for Equality - Action research by disabled people: how can disabled people play a full and meaningful role in participatory budgeting in Scotland?](#)

Go Vocal:

[The Beginner's Guide to Participatory Budgeting](#)

Innovation in Democracy Programme:

[How to Run a Citizens' Assembly](#)

Involve:

[A Practical Guide to the Types, Roles and Spaces of Public Engagement on Climate](#)

KNOCA:

[Guidance on Climate Assemblies](#)

Llywodraeth Cymru:

[Pecyn Cymorth Cyllidebu Cyfranogol](#)

Marcin Gerwin:

[Citizens' Assemblies. Guide to Democracy that Works](#)

MASSLBP:

[How to Run a Civic Lottery](#)

NESTA:

[Advancing Democratic Innovations Toolkit](#)

New Democracy Foundation:

[Enabling National Initiatives to Take Democracy Beyond Elections](#)

OECD:

[Eight Ways to Institutionalise Deliberative Democracy](#)

OECD:

[Guidelines for Citizen Participation Processes](#)

People Powered:

[Participation Playbook](#)

People Powered:

[Guide to Digital Participation Platforms](#)

The PB Unit:

[Participatory Budgeting Self-Evaluation Toolkit](#)

Tina Nabatchi:

[A Manager's Guide for Evaluating Citizen Participation](#)

What Works Scotland:

[How to Design and Plan Public Engagement Processes: A Handbook](#)

3. Canllawiau ar gyfer hwyluswyr arloesi democrataidd**Anwen Elias a Jennifer Wolowic:**

[Deialog mewn Collage – Dull creadigol at greu sgysiau cydystyried](#)

GIG:

[The Facilitator's Toolkit](#)

Sam Kaner:

[Facilitator's Guide to Participatory Decision-making](#)

MosaicLab:

[Facilitating Deliberation: A Practical Guide](#)

NESTA:

[The Advancing Democratic Innovations Toolkit – Facilitator's Guide](#)

Nodiadau

- 1 [Llywodraeth Cymru \(2024\) 'Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad terfynol'](#), t.34.
- 2 [Llywodraeth Cymru \(2024\) 'Comisiwn Annibynnol'](#), t.32; [Carnegie UK \(2024\) 'Life in the UK 2024 Wales'](#), t.23.
- 3 [Carnegie UK \(2024\) 'Life in the UK 2024 Wales'](#), t.23; [Llywodraeth Cymru \(2024\) 'Llesiant Cymru, 2024'](#), t.132; [Moore, D. \(2023\) 'Adeiladu Pontydd: Democratiaeth Cymru – nawr, ac ar gyfer ein dyfodol'](#)
- 4 [Sefydliad Materion Cymreig \(2024\) 'Cenhadaeth Cymru'](#); [Llywodraeth Cymru \(2023\) 'Llesiant Cymru, 2023'](#); [Llywodraeth Cymru \(2024\) 'Llesiant Cymru, 2024'](#)
- 5 [Carnegie UK \(2024\) 'Life in the UK 2024 Wales'](#)
- 6 [International IDEA \(2024\) 'The Global State of Democracy 2024'](#)
- 7 [OECD \(2024\) 'OECD Survey on Drivers of Trust in Public Institutions – 2024 Results'](#)
- 8 [Wike, R. and Fetterolf, J. \(2022\) 'Global Public Opinion in an Era of Democratic Anxiety'](#)
- 9 [Smith, G. \(2009\) *Democratic Innovations: Designing Institutions for Citizen Participation*](#). Caergrawnt: Cambridge University Press, t.1.
- 10 [Demos \(2024\) 'Citizens' White Paper'](#), tud.7-8..
- 11 [DemocracyNext \(2024\) 'Assembling an Assembly Guide'](#); [Demos \(2024\) 'Citizens' White Paper'](#); [Chwalisz, C. \(2017\) *The People's Verdict: Adding Informed Citizens' Voices to Public Decision-making*](#). Llundain: Rowman & Littlefield; [Pow, J. \(2023\) 'Mini-publics and the wider public: The perceived legitimacy of randomly selected citizen representatives'](#). *Representation: The Journal of Representative Democracy*, 59(1), tud.13-32; [Van der Does, R. a Jacquet, V. \(2023\) 'Small-scale deliberation and mass democracy: A systematic review of the spillover effects of deliberative minipublics'](#). *Political Studies*, 71(1), tud.218-237; [Ehassi, M. \(2024\) *Activated Citizenship: The Transformative Power of Citizens' Assemblies*](#). Efrog Newydd/Llundain: Routledge.
- 12 [Elstub, S. ac Escobar, O. \(2019\) 'Defining and typologising democratic innovations'](#), yn S. Elstub ac O. Escobar (goln.), *Handbook of Democratic Innovation and Governance*. Cheltenham: Edward Elgar, tud.11-31.
- 13 [Smith, G. \(2005\) 'Power Beyond the Ballot: 57 Democratic Innovations from Around the World'](#)
- 14 [Elstub ac Escobar \(2019\) 'Defining and typologising democratic innovations'](#), t.14.
- 15 [Presence Switzerland \(2024\) 'Political system'](#)
- 16 [Elstub ac Escobar \(2019\) 'Defining and typologising democratic innovations'](#), t.15.
- 17 [Elstub ac Escobar \(2019\) 'Defining and typologising democratic innovations'](#), t.15.
- 18 [Nid yw'r diffiniad hwn felly'n cynnwys datblygiadau arloesol mewn perthynas â democratiaeth etholiadol – e.e. pleidleisio electronig neu orfodol a gostwng oedran pleidleisio – y mae rhai wedi eu cynnwys yn eu diffiniad o arloesi democrataidd \(e.e. \[Smith \\(2005\\) 'Power Beyond the Ballot'\]\(#\)\).](#)
- 19 [Carson, L. ac Elstub, S. \(2019\) 'Comparing participatory and deliberative democracy'](#)
- 20 [Fishkin \(2012\) *Evaluating Democratic Innovations: Curing the Democratic Malaise?*](#). Llundain: Routledge, t.71.
- 21 [Elstub ac Escobar \(2019\) 'Defining and typologising democratic innovations'](#), t.18.
- 22 [Er nad yw'r casgliad hwn o ddulliau yn cael ei ystyried gan Elstub ac Escobar \(2019\), rydym yn eu cynnwys yma fel maes ymarfer sy'n dod i amlygrwydd sydd â'r potensial i gynyddu hygyrchedd a chynhwysiant arloesi democrataidd yn sylweddol.](#)
- 23 [Elstub ac Escobar \(2019\) 'Defining and typologising democratic innovations'](#), tud.22-24.
- 24 [OECD \(2020\) 'Innovative Citizen Participation and New Democratic Institutions: Catching the Deliberative Wave'](#)
- 25 [Mejia, M. \(2023\) 'Trends in Deliberative Democracy: OECD Database Update'](#)
- 26 [Escobar, O. ac Elstub, S. \(2017\) 'Forms of Mini-Publics: An introduction to deliberative innovations in democratic practice'](#); [Carson, L. \(2017\) 'Deliberation'](#)
- 27 [OECD \(2020\) 'Innovative Citizen Participation'](#), tud.35-36.
- 28 [OECD \(2020\) 'Innovative Citizen Participation'](#), tud.70-72.
- 29 [Participedia \(2021\) 'Citizens' Jury'](#); [Involve \(2018\) 'Citizens' Jury'](#); [newDemocracy \(2016\) 'What is a Citizens' Jury?'](#)
- 30 [Coote, A. a Mattinson, D. \(1997\) *Twelve Good Neighbours: The Citizen as Juror*](#). Llundain: Fabian Society, t.4.
- 31 [Smith, G. a Wales, C. \(2000\) 'Citizens' juries and deliberative democracy'](#). *Political Studies*, 48(1), tud.51-65 (t.55).
- 32 [Participedia \(2021\) 'Oregon Citizens' Initiative Review'](#)
- 33 [Participedia \(2020\) 'Noosa Community Jury on Organic Waste Management'](#)
- 34 [Senedd yr Alban \(2019\) 'Scottish Parliament Citizens' Jury on land management and the natural environment'](#)
- 35 [OECD \(2020\) 'Innovative Citizen Participation'](#), t.35.
- 36 [Farrell et al. \(2020\) 'Effects of Mixed Membership'](#)
- 37 [Renwick, A. \(2024\), *Citizens' assemblies: what are they and how can policy makers use them?*](#)

- 38 [The Citizens' Assembly \(2017\) 'About the 2016 – 2018 Citizens' Assembly'](#)
- 39 [Citizens' Assembly on Electoral Reform \(2004\) 'Making every vote count: The case for electoral reform in British Columbia'](#); [Participedia \(2020\) 'British Columbia Electoral Reform Process \(2002-2005\)'](#)
- 40 [Participedia \(2024\) 'Yukon Citizens' Assembly on Electoral Reform \(YCA\)'](#)
- 41 Am drosolwg cynhwysfawr o gynulliadau dinasyddion ar newid hinsawdd ledled y byd, gweler: [KNOCA \(2021\) 'Summaries of National Climate Assemblies'](#)
- 42 [Participedia \(2023\) 'French citizens' assembly on assisted dying'](#)
- 43 [Participedia \(2023\) 'New Zealand's Citizens' Assembly on Genetic Modification \(2003\)'](#)
- 44 [Sortition Foundation \(2020\) 'Greater Cambridge \(UK\) Citizens' Assembly'](#)
- 45 Nishiyama, K. (2023) 'Deliberation in citizens' assemblies with children', yn M. Reuchamps, M., J. Vrydagh ac Y. Welp (goln.), *De Gruyter Handbook of Citizens' Assemblies*. Berlin/Boston: De Gruyter, tud.169-182; Reid, K. (2024) 'Children and Young People's Participation in Climate Assemblies'
- 46 [Burnaby Community Assembly \(2024\) 'Burnaby Community Assembly'](#)
- 47 [Simon Fraser University's Morris J. Wosk Centre for Dialogue \(2024\) 'Burnaby Community Assembly Final Report'](#)
- 48 Niessen, C. a Reuchamps, M. (2022), 'Institutionalising citizen deliberation in parliament: The Permanent Citizens' Dialogue in the German-speaking community of Belgium'. *Parliamentary Affairs*, 75, tud.135-153.
- 49 [Bürgerdialog in Ostbelgien \(2019\) 'FAQs'](#)
- 50 [Participedia \(2012\) 'Citizens' dialogue during the Royal Commission on the Future of Healthcare in Canada'](#)
- 51 [Participedia \(2020\) 'Citizens' Dialogue on the Long-term Management of Used Nuclear Fuel'](#)
- 52 [Participedia \(2021\) 'UK Public Dialogue on Reducing Carbon Emissions'](#)
- 53 [Bürgerrat \(2022\) 'Citizens' dialogue on national security'](#)
- 54 [BertelsmannStiftung \(2021\) 'Transnational Citizens' Dialogues'](#)
- 55 [Missions Publiques \(2021\) "'We, the Internet" – Global Citizens' Dialogue on the Future of Internet'](#)
- 56 [Centre for Dialogue \(2017\) 'What is Canada's energy future?'](#)
- 57 Ganuza, E. a Baiocchi, G. (2019) 'The long journey of participatory budgeting', yn Elstub, S. ac Escobar, O. (goln.) *Handbook of Democratic Innovation and Governance*. Edward Elgar Publishing: Cheltenham, t.77.
- 58 Wampler, B. (2007) 'A Guide to Participatory Budgeting', yn A. Shah (gol.) *Participatory Budgeting*. Washington: The World Bank, tud.21-54 (t.22); [Involve \(2023\) 'Methods: Participatory Budgeting'](#)
- 59 Ibid.
- 60 Islam, R. (2007) 'Preface'. Yn A. Shah (gol.), *Participatory Budgeting*. Washington: The World Bank, t.xv.
- 61 Ganuza a Baiocchi (2019) 'The long journey of participatory budgeting', t.82.
- 62 [Lerner, J. \(2024\) 'From Waves to Ecosystems: The Next Stage of Democratic Innovation'](#), t.15.
- 63 Elstub ac Escobar (2019) 'Defining and typologising democratic innovations', t.25.
- 64 [Warszawa \(2024\) 'Public consultation report with the residents of the Capital City of Warsaw regarding the civic budget for 2025'](#)
- 65 [Warszawa \(2023\) '10th edition of the citizens' budget'](#); [Warszawa \(2024\) 'Summary of the 11th edition of the civic budget'](#)
- 66 [Dias, N., Enriquez, S., a Júlio, S. \(goln.\) \(2019\) 'The participatory budgeting world atlas 2019'](#)
- 67 Falanga, R., Lüchmann, L. H., Domingos, H. C., a Nicoletti, A. (2020) 'Participatory budgets in Canoas (Brazil) and Cascais (Portugal): A comparative analysis of the drivers of success'. *Journal of Civil Society*, 16, tud.273–293.
- 68 [Romeo, N. \(2023\) 'How to spend your city's money'](#)
- 69 [Dias, N. a de Sousa, V. \(2017\) 'A City Starts With People: Cascais Participatory Budget'](#)
- 70 [Romeo, N. \(2023\) 'How to spend your city's money'](#)
- 71 Falanga, R. (2024) 'Scaling participatory budgets. Pitfalls and potentialities from multiple scales in Portugal'. *Local Development & Society*, 5(3), tud.639-655.
- 72 [Participedia \(2021\) 'Method: Collaborative Governance'](#)
- 73 [Collaboration for Impact \(2020\) 'Collaborative governance: an introductory practice guide'](#)
- 74 Batory, A. a Svensson, S. (2019) 'The fuzzy concept of collaborative governance: A systematic review of the state of the art'. *Central European Journal of Public Policy*, 13(2), tud.28-39
- 75 [Participedia \(2021\) 'Method: Collaborative Governance'](#)
- 76 Elstub ac Escobar (2019) 'Defining and typologising democratic innovations'.

- 77 Barandiarán, X., Canel, M. J., a Bouckaert, G. (2023) 'Introduction: *Etorkizuna Eraikiz*, a major case of collaborative governance', yn X. Barandiarán, M. J. Canel a G. Bouckaert (goln.) *Building Collaborative Governance in Times of Uncertainty: Pracademic Lessons From the Basque Gipuzkoa Province*. Leuven: Leuven University Press, tud.21-38
- 78 Lund, D. (2018) 'Governance innovations for climate change adaptation in urban Denmark'. *Journal of Environmental Policy & Planning*, 20(5), tud.632-644.
- 79 Ibid.; [Realdania \(2023\) 'Climate adaptation Kokkedal'](#)
- 80 Jørgensen, G., Fryd, O., Lund, A., Andersen, P. a Herslund, L. (2022) 'Nature-based climate adaptation projects, their governance and transitional potential-cases from Copenhagen'. *Frontiers in Sustainable Cities*, 4, tud.1-15.
- 81 Jäske, M. a Setälä, M. (2019) 'Referendums and citizens' initiatives', yn S. Elstub ac O. Escobar (goln.) *Handbook of Democratic Innovation and Governance*. Cheltenham: Edward Elgar, tud. 90-104 (t.90).
- 82 Ibid., t.91.
- 83 Chambers, S. (2001) 'Constitutional Referendums and Democratic Deliberation', yn M. Mendelsohn ac A. Parkin (goln.) *Referendum Democracy*. Llundain: Palgrave Macmillan, tud. 231-255; Geissel, B. a Gherghina, S. (2016) 'Constitutional deliberative democracy and democratic innovations', yn M. Reuchamps a J. Suiter (goln.), *Constitutional deliberative democracy in Europe*. Caer Colun: ECPR Press, tud.75-92.
- 84 Hendriks, F. a Wagenaar, C. (2023) 'The deliberative referendum: An idea whose time has come?'. *Administration & Society*, 55(3), tud.569-590.
- 85 [Participedia \(2020\) 'Citizens' Jury on Referendum Options in Korsholm, Following Citizens' Initiative Review'](#)
- 86 Suiter, J. (2018) 'Deliberation in action: Ireland's abortion referendum'. *Political Insights*, 9(3), tud.30-32.
- 87 [Go Vocal \(2023\) 'Citizen Initiatives are vital to local democracy: 4 key success factors'](#); [Alarcón, P., García-Espín, P., Welp, Y. a Font, J. \(2018\) 'Influencing politics with signatures? Models and experiences of local citizens' initiative'](#)
- 88 Jäske a Setälä (2019) 'Referendums and citizens' initiatives', t.92.
- 89 [European Union \(2024\) 'European Citizens' Initiative'](#)
- 90 Jäske and Setälä (2019) 'Referendums and citizens' initiatives', t.93.
- 91 Gastil, J., Richards, R. a Knobloch, K. (2014). 'Vicarious deliberation: How the Oregon Citizens' Initiative review influenced deliberation in mass elections'. *International Journal of Communication*, 8, tud.62-89.
- 92 [Healthy Democracy \(N.D.\) 'Health Democracy Projects'](#); [Participedia \(2020\) 'Citizens' Jury on Referendum Options in Korsholm'](#)
- 93 Rollo, T. (2021) 'Back to the Rough Ground: Textual, Oral and Enactive Meaning in Comparative Political Theory'. *European Journal of Political Theory*, 20(3), tud.379-397; Mendonça, R., Ercan, S. ac Asenbaum, H. (2022) 'More than words: A multidimensional approach to deliberative democracy'. *Political Studies*, 70(1), tud.153-172.
- 94 Ibid.
- 95 Mosaic Lab (2024) Cyflwyniad yng nghynhadledd Democracy Research and Development, 19-20 Medi, Vancouver.
- 96 [Bliesemann de Guevara, B. ac Andra, C. \(2024\) 'Peace Dialogues in Colombia: What Role Can Textile-making Play?'](#)
- 97 [Collective Architecture \(2024\) 'Make Your Mark East Pollokshields Charrette'](#)
- 98 [Greenspace Scotland \(2020\) 'Better Outside - The Bowling Green, Pollokshields'](#)
- 99 [People Powered \(2022\) 'Legislative Theater'](#); [Participation Playbook \(2022\) 'Legislative Theater'](#)
- 100 [Benes, S. \(2021\) 'Greater Manchester Legislative Theatre: Co-Producing the GMCA Homelessness Prevention Strategy'](#)
- 101 [Street Support Network \(2021\) 'Greater Manchester Legislative Theatre Update'](#)
- 102 [Benes, S. \(2021\) 'Greater Manchester Legislative Theatre'](#)
- 103 Ibid.
- 104 [Nesta \(2017\) 'Digital Democracy: The tools transforming political engagement'](#)
- 105 Elstub ac Escobar (2019) 'Defining and typologising democratic innovations'
- 106 [Nesta \(2017\) 'Digital Democracy: The tools'](#)
- 107 Er enghraifft: Mortensen, T. a Ronnenberg, M. (2019) 'Denmark Participatory Budgeting Data', yn N. Dias, S. Enriquez a S. Júlio (goln.) *Participatory Budgeting World Atlas 2019*. Faro: Epopeia Books/Oficina, tud.152-153.
- 108 [BertelsmannStiftung \(2021\) 'Transnational Citizens' Dialogues'](#)
- 109 [Williams, E., St. Denny, E. a Bristow, D. \(2017\) 'Participatory Budgeting: An Evidence Review'](#); [Nesta \(2017\) 'Digital Democracy: The tools'](#)
- 110 Ibid; [Ambrosino, A., Birk, S., Mingardi, C., Nikolou, G., Spielberger, L., Thevenin, E. a Trinkle, A. \(2021\) 'Unmute the Youth!'](#)
- 111 [Nesta \(2017\) 'Digital Democracy: The tools'](#)
- 112 Park, K., Lee, H., Lee, B.-M. a Jang, Y. (2019) 'South Korea Participatory Budgeting Data', yn N. Dias, S. Enriquez, a S. Júlio (goln.) *Participatory Budgeting World Atlas 2019*. Faro: Epopeia Books/Oficina, tud.140-143..

- 113 [Nesta \(2017\) 'Digital Democracy: The tools'](#), t.7.
- 114 [The Computational Democracy Project \(2024\) 'FAQ'](#)
- 115 [Nesta \(2017\) 'Digital Democracy: The tools'](#); [Participedia \(2021\) 'vTaiwan'](#)
- 116 [Nesta \(2017\) 'Digital Democracy: The tools'](#)
- 117 [vTaiwan \(2024\) 'Where do we go as a society?'](#)
- 118 [Decidim \(2024\) 'About Decidim'](#)
- 119 [Peña-López, I. \(2017\) 'Voice or Chatter? Case Studies: decidim.barcelona, Spain'](#)
- 120 Ibid.
- 121 Ibid.
- 122 [Participedia \(2022\) 'Decidim: Participatory Budgeting in Barcelona'](#)
- 123 [Decidim \(2024\) 'Decidim in use'](#)
- 124 [OECD \(2022\) 'OECD Guidelines for Citizen Participation Processes'](#), t.13.
- 125 Elstub, S. (2014) 'Mini-publics: Issues and cases', yn S. Elstub a P. McLaverty (goln.), *Deliberative democracy: Issues and cases*. Caeredin: Edinburgh University Press, tud.166-188 (t.172).
- 126 [Escobar ac Elstub \(2017\) 'Deliberative innovations: Using 'mini-publics''](#)
- 127 [DemocracyNext \(2024\) 'Assembling an Assembly Guide'](#), dim rhif tudalen.
- 128 [Escobar and Elstub \(2017\) 'Deliberative innovations: Using 'mini-publics''](#); Fishkin, J. (1991) *Democracy and Deliberation*. New Haven: Yale University Press, t.81.
- 129 Parkinson, J. (2006) *Deliberating in the real world: Problems of legitimacy in deliberative democracy*. Rhydychen: Oxford University Press, t.79.
- 130 [FIDE \(2023\) 'Including the Under-represented'](#), t.3.
- 131 Suiter, J., Farrell, D. a Harris, C. (2016) 'The Irish Constitutional Convention: A case of 'high legitimacy'?', yn M. Reuchamps a J. Suiter (goln.) *Constitutional deliberative democracy in Europe*. Caer Colun: ECPR Press, tud.33-54.
- 132 Elstub ac Escobar (2019) 'Defining and typologising democratic innovations', t.19.
- 133 [Involve \(2023\) 'Methods: Participatory Budgeting'](#); [Wampler \(2007\) 'A Guide to Participatory Budgeting'](#).
- 134 Parkinson, J. (2018) 'Ideas of Constitutions and Deliberative Democracy and How They Interact', yn R. Levy, H. Kong, G. Orr a J. King (goln.) *The Cambridge Handbook of Deliberative Constitutionalism*. Caergrawnt: Cambridge University Press, tud. 246-255 (t.252).
- 135 [Democracy Technologies \(2022\) 'Participatory Budgets Alone Aren't Enough'](#)
- 136 [Escobar ac Elstub \(2017\) 'Forms of Mini-Publics'](#), t.5.
- 137 Elstub ac Escobar (2019) 'Defining and typologising democratic innovations', t.17.
- 138 Ibid.
- 139 [OECD \(2020\) 'Innovative Citizen Participation'](#), t.14.
- 140 [Participedia \(2019\) 'Ireland Participatory Democracy Pilot 'We the Citizens''](#)
- 141 Elvang, Z. (2023) [*Teitl anhysbys*]. Ysgol Haf G1000, 21-22 Mawrth, Eupen.
- 142 Vlahos, N. (2024) 'Integrating Participatory Budgeting and Institutionalized Citizens' Assemblies: A Community Driven Perspective'. *National Civic Review*, 112(4), tud.53-63.
- 143 Oddsdóttir, K. (2014) 'Iceland: The Birth of the World's First Crowd-Sourced Constitution'. *Cambridge Journal of International and Comparative Law*, 3(4), tud.1207-1220.
- 144 [Lerner \(2024\) 'From Waves to Ecosystems'](#), t.17.
- 145 [OECD \(2020\) 'Innovative Citizen Participation'](#)
- 146 [Lerner \(2024\) 'From Waves to Ecosystems'](#), t.10.
- 147 Ibid., t.17.
- 148 [OECD \(2023\) 'Open Government for Stronger Democracies'](#), t.11.
- 149 [Bussu, S., Golan, Y. a Hargreaves, A. \(2022\) 'Understanding Developments in Participatory Governance: A Report on Findings from a Scoping Review of the Literature and Expert Interviews'](#)
- 150 Cardullo, P., Ribera-Fumaz, R. a González Gil, P. (2023) 'The Decidim 'soft infrastructure': democratic platforms and technological autonomy in Barcelona'. *Computational Culture*, 9 (dim rhif tudalen).
- 151 Gastil, J. (1993) *Democracy in Small Groups: Participation, Decision-Making and Communication*. Philadelphia: New Society; Ehassi (2024) Activated Citizenship, t.219.

- 152 Escobar, O. (2019) 'Facilitators: the micropolitics of public participation and deliberation', yn S. Elstub ac O. Escobar (goln.), *Handbook of Democratic Innovation and Governance*. Cheltenham: Edward Elgar, tud. 178-195 (t.178).
- 153 Zubizarreta-Ada, R. (2023) *Facilitators' Insights from the Vorarlberg Citizens' Councils: A Qualitative Research Study on the Process of Collaborative Meaning-Making*. Traethawd ymchwil Ph.D, Fielding Graduate University.
- 154 Bussu, S., Golan, Y. a Hargreaves, A. (2022) 'Understanding Developments in Participatory Governance: A Report on Findings from a Scoping Review of the Literature and Expert Interviews', t.15.
- 155 OECD (2021) 'Eight ways to institutionalise deliberative democracy'
- 156 Ibid., t.9.
- 157 Ibid., t.12-27.
- 158 Moskovic, J., Saintraint, F. a Redman, K. (2020) 'The Brussels Deliberative Committees Model'
- 159 OECD (2021) 'Eight ways to institutionalise', t.23-25.
- 160 Bussu, S.; Bua, A. a Smith, G. (2022) 'Introduction: embedding participatory governance'. *Critical Policy Studies*, 16(2), tud.133-145.
- 161 Lerner (2024) 'From Waves to Ecosystems', t.20.
- 162 Ymhlith y sefydliadau allweddol yn y maes hwn mae Open Government Partnership, apolitical foundation a People Powered.
- 163 Lerner, J. (2024) 'From Waves to Ecosystems', t.19-20.
- 164 Apolitical (2024) 'Leaders or latecomers? Exploring the role of politicians in democratic innovation'
- 165 Lerner, J. (2024) 'From Waves to Ecosystems', t.18.
- 166 Apolitical. (2024) 'Leaders or Latecomers', t.19.
- 167 Demos (2024) 'Citizens' White Paper'
- 168 Manylion pellach yn: Senedd Cymru (2019) 'Ein Cynulliad Dinasyddion cyntaf'
- 169 Manylion pellach yn: Cynnal Cymru (2021) 'Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent'; EGIN (2024) 'Llyfrgell Gyhoeddus y Gelli: Menter Cydnerthedd Cymunedol y Gelli'
- 170 Sefydliad Materion Cymreig (2022) 'Lleisiau'r Dinasyddion, Newyddion y Bobl: Sicrhau bod y Cyfryngau'n Gweithio dros Gymru'
- 171 MTM (2018) 'The citizens' juries'
- 172 Llywodraeth Cymru (2024) 'Comisiwn Annibynnol'
- 173 Cyngor Dinas Casnewydd (2023) 'Rhaglen gyllidebu gyfranogol 2022/23'
- 174 Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru (2017): Hafan
- 175 Wall, M., Elias, A., Murphy, Y., Royles, E. a Moore, D. (2023) 'An Emerging 'Welsh Way'? Innovative Participatory Deliberation in Wales'
- 176 Moore, D. (2023) 'Adeiladu Pontydd: Democratiaeth Cymru', t.12.
- 177 Llywodraeth Cymru (2024) 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion'
- 178 Llywodraeth Cymru (2024) 'Datganiad Ysgrifenedig: Diwygio cyfansoddiadol: penodi Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth'
- 179 Moore (2023) 'Adeiladu Pontydd: Democratiaeth Cymru', t.13.
- 180 Llywodraeth Cymru (2024) 'Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad terfynol', t.37.
- 181 Cymru Can (2023) 'Strategaeth ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2023-2030'; gweler hefyd: Carnegie UK (2024) 'Life in the UK 2024 Wales'
- 182 Moore (2023) 'Adeiladu Pontydd: Democratiaeth Cymru'

iwar POLICY



Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society

